Ein Cynllun Ni
Eich Cynllun Chi

Cynllun Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Drafft

2008 - 2011

Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Mai 2008

Mynegai

Rhagair	**03**
Adran 1: Cyflwyniad	**04**
Adran 2: Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw	**08**
Adran 3: Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Yfory	**12**
Adran 4: Siarter Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd	**15**
Adran 5: Meysydd Blaenoriaeth	**17**
Adran 6: Amcan Strategol 1 - Cychwyn Gorau	**20**
Adran 7: Amcan Strategol 2 - Addysg a Chyfleoedd Dysgu	**25**
Adran 8: Amcan Strategol 3 - Iechyd, Rhyddid o Gamdriniaeth ac Ecsploetiaeth	**40**
Adran 9: Amcan Strategol 4 - Chwarae, Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant	**52**
Adran 10: Amcan Strategol 5 - Parch	**58**
Adran 11: Amcan Strategol 6 - Cartref a Chymuned Ddiogel	**62**
Adran 12: Amcan Strategol 7 - Rhyddid Rhag Tlodi	**69**
Adran 13: Datblygu'r Gweithlu Plant a Phobl Ifanc	**74**
Adran 14: Gwneud Gwahaniaeth Er Lles Plant a Phobl Ifanc	**76**
Adran 15: Eich Llais Chi	**79**

Rhagair

Mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i fyw bywyd hapus, bodlon a diogel, i leisio'u barn ac i gael mynediad at amrediad o gyfleoedd, gwasanaethau ac adnoddau a fydd yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn potensial.

Ond, nid pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Ngwynedd ar hyn y bryd sy'n gallu cael mynediad at y cyfleoedd, gwasanaethau ac adnoddau a fydd yn eu galluogi i fwynhau bywyd llawn, i leisio'u barn a chyrraedd eu gwir botensial. Mae hyn oherwydd cyfuniad o ffactorau megis tlodi, iechyd gwael, tai annigonol neu anaddas, diffyg cludiant fforddiadwy a lefelau isel o safbwynt sgiliau a chyrhaeddiad addysgol.

Mae galluogi plant a phobl ifanc i wybod beth yw eu hawliau, cyflawni eu llawn potensial a mwynhau ffordd gadarnhaol o fyw, felly, i gyd yn flaenoriaethau ar gyfer Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd.

Pwrpas **Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi**, sef Cynllun Plant a Phobl Ifanc cyntaf Gwynedd, yw datgan yn glir gweledigaeth, blaenoriaethau a bwriadau'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer hyrwyddo lles holl blant a phobl ifanc Gwynedd.

Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gwbl ymroddedig i ddwyn ynghyd nifer o wasanaethau ac asiantaethau statudol a gwirfoddol yn ogystal â phartneriaethau strategol eraill i gydweithio er mwyn rhoi'r cynllun pwysig hwn ar waith er lles holl blant a phobl ifanc Gwynedd. Dyna paham ein bod wedi penderfynu galw Cynllun Plant a Phobl Ifanc cyntaf Gwynedd yn **Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi** oherwydd ei bod yn gynllun i ni fel Partneriaeth Strategol ac yn gynllun i chi boed chi yn blentyn, yn berson ifanc, yn rhiant, yn ofalwr neu yn un o'r nifer o bobl hynny sydd yn gweithio i gorff neu fudiad sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Yr wyf yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at y broses o lunio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Yn amlwg, nid dyma'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc terfynol. Fersiwn drafft o'r cynllun a gyflwynir i chi yma. Hoffwn eich annog i'w ddarllen, i'w ystyried ac i'w drafod ac yr wyf yn erfyn arnoch i wneud yn fawr o'r cyfle hwn i gyflwyno eich sylwadau arno. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ddogfen drafft yw **31 Gorffennaf 2008**. Yn wir, gyda'ch cymorth a'ch cyfraniad, gall y Bartneriaeth Strategol ddatblygu cynllun cynhwysfawr, clir a chadarn er hyrwyddo lles holl blant a phobl ifanc Gwynedd.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau a chyflwyno'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc terfynol i'ch sylw ym mis Medi.

Yn gywir iawn,

Iwan Trefor Jones
Cadeirydd Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

1. Cyflwyniad

1.1 Beth yw 'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi'?

1.1.1 'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi' yw cynllun cyntaf Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir.

1.1.2 Hwn yw'r strategaeth aml-asiantaethol strategol cyntaf o'i fath yng Ngwynedd ar gyfer plant a phobl ifanc. Ei brif bwrpas yw amlygu gweledigaeth, amcanion, blaenoriaethau a chynlluniau'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer hyrwyddo lles plant a phobl ifanc dros y tair blynedd nesaf.

1.2 Pam bod angen Cynllun Plant a Phobl Ifanc?

1.2.1 Ar hyn o bryd, cyhoeddir nifer o gynlluniau a strategaethau gwahanol ar gyfer llywio'r modd y darperir gwasanaethau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae Deddf Plant (2004) yn disodli'r gofyn i baratoi'r cynlluniau a strategaethau hyn ac yn gosod dyletswydd statudol newydd ar Awdurdodau Lleol i gydweithio gyda'u partneriaid drwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc i baratoi a chyhoeddi un cynllun strategol a chynhwysfawr er hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae cyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc, felly, yn cynnig cyfle i ddatblygu a rhoi un ddogfen strategol ar waith er lles holl blant a phobl ifanc.

1.2.2 Nid pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Ngwynedd ar hyn y bryd sydd yn gallu cael mynediad at y cyfleoedd, gwasanaethau ac adnoddau a fydd yn eu galluogi i fwynhau bywyd llawn, i leisio'u barn a chyrraedd eu gwir botensial. Mae hyn oherwydd cyfuniad o ffactorau personol, teuluol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod ystod eang o bartneriaid ar draws pob sector yn cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau hyn i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc, felly, yn darparu fframwaith strategol ar gyfer llywio gwaith amrediad eang o bartneriaid a phartneriaethau ar draws nifer o sectorau er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau a'u gweithredoedd yn hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

1.2.3 Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) yn gasgliad o ddatganiadau neu 'erthyglau' sydd yn ymdrin â hawliau sifil, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol plant a phobl ifanc. Mae paratoi a chyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc, felly, yn cynnig cyfle i weithredu'n gadarn ar ofynion y Confensiwn drwy sicrhau fod cyrff a phartneriaethau strategol yn cynllunio, comisiynu, darparu a gwerthuso gwasanaethau mewn modd sydd yn caniatáu plant a phobl ifanc i wireddu eu hawliau.

1.3 Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc?

1.3.1 Yn gyntaf, mae 'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi' yn gynllun ar gyfer holl blant a phobl ifanc Gwynedd – hynny yw, unrhyw berson rhwng 0 a 25 oed. Plant a phobl ifanc Gwynedd, felly, fydd yn elwa'n bennaf o'r cynllun hwn. Ond, mae'r cynllun hwn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd rhieni a theuluoedd o safbwynt hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Felly, mae hwn yn gynllun ar gyfer hwythau hefyd.

1.3.2 Yn ail, mae 'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi' yn gynllun ar gyfer pob corff sydd yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn gosod gweledigaeth gadarn a chyfres o flaenoriaethau clir er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu comisiynu, cynllunio a darparu mewn modd sydd yn hyrwyddo lles holl blant a phobl ifanc Gwynedd.

1.4 Pwy sydd yn gyfrifol am y Cynllun Plant a Phobl Ifanc?

1.4.1 Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd sydd yn gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'i roi ar waith.

1.4.2 Sefydlwyd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn Ionawr 2007 er mwyn hyrwyddo a chryfhau cydweithio rhwng cyrff ac asiantaethau sydd yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd.

1.4.3 Ceir 25 o Aelodau i gyd ar y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn cynrychioli amrediad eang o gyrff sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Orllewin Cymru, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Prawf Gogledd Cymru, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Mantell Gwynedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Ceir cynrychiolaeth hefyd ar y Bartneriaeth Strategol o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Sir yn ogystal â sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch.

1.5 Sut cafodd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ei ddatblygu?

1.5.1 Datblygwyd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc mewn cyfres o gamau yn unol â gofynion Deddf Plant (2004) a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â datblygu a chyhoeddi Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, sef 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau' (2007).

1.5.2 Y cam gyntaf yn y broses oedd adnabod anghenion ac asesu lles plant a phobl ifanc Gwynedd a'u teuluoedd. Gwnaed hyn ar y cyd â Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd a chyhoeddwyd y canlyniadau mewn cyfres o adroddiadau o dan yr enw 'Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw'. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yma a chasgliadau cychwynnol y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ynghylch lles plant a phobl ifanc yn Adran 2.

1.5.3 Yr ail gam yn y broses oedd defnyddio canlyniadau'r asesiad o les ac anghenion plant a phobl ifanc er mwyn adnabod a chytuno ar gyfres o feysydd sydd ag effaith a dylanwad ar les plant, pobl ifanc a theuluoedd i'w blaenoriaethu yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Gwnaed hynny drwy asesu'r meysydd yn ôl:

- Y risg i blant, pobl ifanc a theuluoedd (gan gynnwys grwpiau penodol o blant, pobl ifanc a theuluoedd) o beidio ag ymyrryd yn y maes.

- Y radd o ddylanwad sydd gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i ymyrryd yn y maes.

Defnyddiwyd canlyniadau'r asesiad i bennu pob maes unigol un ai fel maes blaenoriaeth allweddol, maes blaenoriaeth uchel, maes blaenoriaeth canolig neu faes blaenoriaeth isel. Cyflwynir y meysydd yn ôl eu trefn blaenoriaeth yn Adran 5.

1.5.4 Y cam nesaf yn y broses yw ymgynghori yn eang ar y cynllun drafft hwn drwy wahodd sylwadau ar ei gynnwys ac argymhellion ar gyfer ei wella. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar **31 Gorffennaf 2008**. Ceir rhagor o fanylion yn Adran 15 ar sut i gyflwyno sylwadau ac argymhellion ar y ddogfen yn ystod y cyfnod ymgynghori.

1.5.5 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ystyried y sylwadau a'r argymhellion a gyflwynir ar y ddogfen drafft ac yn ei addasu cyn ei fabwysiadau a'i gyhoeddi'n derfynol ar **30 Medi 2008**.

1.6 Beth yw perthynas y Cynllun Plant a Phobl Ifanc gyda chynlluniau a strategaethau eraill?

1.6.1 Er mai 'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi' yw'r prif gynllun strategol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Ngwynedd, ni all y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fynd i'r afael â'r holl faterion sydd yn dylanwadu ac yn effeithio ar les plant a phobl ifanc heb gydweithio'n agos gyda phartneriaethau strategol eraill.

1.6.2 O ganlyniad, datblygwyd 'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi' mewn cydweithrediad â phartneriaethau strategol eraill megis Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd; Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd; Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd; Cynghrair Her Iechyd Gwynedd; Partneriaeth Economaidd Gwynedd; Rhwydwaith Dysgu 14 – 19 Gwynedd a Phartneriaeth Amgylcheddol Gwynedd. Yn wir, mae nifer o'r meysydd blaenoriaeth sydd yn ymddangos yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc hefyd yn ymddangos o fewn strategaethau a chynlluniau strategol eraill gan felly ategu pwysigrwydd cydweithio ar draws ystod eang o bartneriaethau i hyrwyddo lles plant, pobl ifanc a theuluoedd.

1.6.3 Mae 'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi' hefyd yn rhan bwysig o Strategaeth Gymunedol Gwynedd, 'Gwynedd Yfory'. Y Strategaeth Gymunedol yw'r brif strategaeth ar gyfer y Sir sydd yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau Gwynedd. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yma, felly, yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at wireddu gweledigaeth y Strategaeth Gymunedol drwy sicrhau fod y meysydd blaenoriaeth yn gyson gyda ac yn atgyfnerthu meysydd ymyrraeth strategol 'Gwynedd Yfory'.

1.6.4 Yn ogystal, er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol, bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau bod partneriaid unigol yn ymgorffori agweddau penodol o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn eu cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredu ac yn adrodd yn rheolaidd ar eu perfformiad o safbwynt cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r ddogfen hon.

1.7 Beth yw strwythur 'Ein Cynllun Ni, Eich Cynllun Chi'?

1.7.1 Rhennir y Cynllun Plant a Phobl Ifanc i'r adrannau canlynol:

Adran 2: Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw - Pwrpas yr adran yma yw disgrifio'r broses o asesu lles ac adnabod anghenion plant a phobl ifanc Gwynedd a chyflwyno casgliadau cychwynnol y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ynghylch lles plant a phobl ifanc y Sir.

Adran 3: Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Yfory - Pwrpas yr adran yma yw cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd yn ogystal ag amcanion strategol ac egwyddorion y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

Adran 4: Siarter Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd - Pwrpas yr adran yma yw cyflwyno Siarter y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc Gwynedd.

Adran 5: Meysydd Blaenoriaeth - Pwrpas yr adran yma yw amlygu'r meysydd sydd yn flaenoriaeth ar gyfer y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Adran 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12: Yr Amcanion Strategol - Pwrpas yr adrannau yma yw cyflwyno cynlluniau a bwriadau'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth o dan bob amcan strategol.

Adran 13: Datblygu'r Gweithlu Plant a Phobl Ifanc - Pwrpas yr adran yma yw cyflwyno cynlluniau'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer datblygu a chefnogi'r gweithlu plant a phobl ifanc yng Ngwynedd.

Adran 14: Gwneud Gwahaniaeth Er Lles Plant a Phobl Ifanc - Pwrpas yr adran yma yw disgrifio'r trefniadau sydd angen bod mewn lle ar gyfer rhoi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar waith a'i fesur a'i fonitro'n barhaus.

Adran 15: Eich Llais Chi - Pwrpas yr adran yma yw disgrifio'r trefniadau a'r amserlen ar gyfer ymateb i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft.

2. Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw

2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae 37,500 o blant a phobl ifanc yn byw yng Ngwynedd, sef 31.86% o holl boblogaeth breswyl y Sir.

2.1.2 Y cam cyntaf, felly, yn y broses o hyrwyddo lles plant a phobl ifanc Gwynedd a'u teuluoedd yw asesu eu lles ac adnabod eu hanghenion.

2.1.3 Caiff lles plant a phobl ifanc – boed hynny yn les corfforol, seicolegol, gwybyddol, cymdeithasol a / neu economaidd – ei ddylanwadu yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan gymysgedd o ffactorau personol, teuluol, cymdeithasol, economaidd a chymdeithasol. Yn wir, nid grŵp unigol, cydlynol, unedig mewn cymdeithas yw plant a phobl ifanc. Yn hytrach, mae plant a phobl ifanc yn gasgliad eang ac amrywiol o unigolion ac o ganlyniad mae anghenion, profiadau a dyheadau pob un yn wahanol.

2.1.4 Felly, er mwyn deall yn well anghenion plant a phobl ifanc ac asesu'r ffactorau hynny sydd yn effeithio ar eu lles, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, ar y cyd â Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd, wedi cyhoeddi **Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw**, sef cyfres o adroddiadau sy'n creu darlun manwl a chynhwysfawr o les ac anghenion plant a phobl ifanc Gwynedd. Prif bwrpas yr adroddiadau hyn yw llywio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drwy amlygu'r meysydd hynny sydd angen sylw ar lefel strategol. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn darparu 'gwaelodlin' o les plant a phobl ifanc fel y gall y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ei ddefnyddio ar gyfer mesur a monitro'i llwyddiant o safbwynt gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc dros gyfnod o amser.

2.2 Rhan Un Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw

2.2.1 Pwrpas Rhan Un Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw yw dwyn ynghyd nifer o ddangosyddion ac ystadegau gwahanol er mwyn creu darlun manwl a chynhwysfawr o les ac anghenion plant a phobl ifanc Gwynedd. Trefnwyd y dangosyddion a'r ystadegau yn unol ag amcanion strategol y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc er mwyn adnabod ac amlygu meysydd penodol sydd angen sylw o dan bob amcan strategol.

2.3 Rhan Dau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw

2.3.1 Yn ogystal â chasglu a dadansoddi dangosyddion ac ystadegau ar wahanol faterion sy'n ymwneud â lles plant a phobl ifanc, yr oedd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn awyddus gwrando ar lais plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a sicrhau fod y llais hwnnw yn cael ei glywed wrth lunio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft.

2.3.2 Felly, comisiynwyd Cynllun Clywed i arwain ar brif agweddau Rhan Dau, sef ymgynghori gyda thrawstoriad o blant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn canfod eu barn ar wahanol faterion sy'n ymwneud â'u lles a'u hanghenion yn ogystal â'u profiadau o fyw yng Ngwynedd. Ymgynghorodd Clywed gyda 1,355 o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 25 oed gan gynnwys 91 o blant a phobl ifanc bregus (megis gofalwyr ifanc a throseddwyr ifanc) yn ogystal â 282 o rieni fel rhan o gynllun 'Ein Llais Ni, Eich Llais Chi'.

2.3.3 Yn ogystal, comisiynwyd Cwmni Mabis i arwain ar Gynllun Ffotograffiaeth gyda phlant a phobl ifanc. Fel rhan o'r gwaith, bu grwpiau o blant a phobl ifanc yn gweithio gyda ffotograffydd proffesiynol i dynnu lluniau o'u hardaloedd a'u bywydau o ddydd i ddydd. Bwriedir cyhoeddi gwaith y plant a phobl ifanc yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc terfynol yn ogystal â'i arddangos mewn orielau a galerïau lleol.

2.4 Rhan Tri Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw

2.4.1 Yn ogystal ag asesu lles ac adnabod anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, mae disgwyliad ar y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i gasglu gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir yn lleol i blant, pobl ifanc a theuluoedd o fewn pob sector (statudol, gwirfoddol, preifat ac annibynnol) fel sail ar gyfer cyhoeddi Rhan Tri Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw. Bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau cyn cyhoeddi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc terfynol a bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygu Strategaeth Gomisiynu gadarn ar gyfer y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau ar draws pob sector i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

2.5 Rhan Pedwar Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw

2.5.1 Mae Adran 22 Deddf Gofal Plant (2006) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, gofal plant digonol i fodloni gofynion rheini y mae angen gofal plant arnynt yn eu hardal er mwyn gweithio neu ymgymryd â hyfforddiant neu addysg neu baratoi ar gyfer gwaith. Mae Adran 26 o'r Ddeddf Gofal Plant yn rhoi'r hawl i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru baratoi asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn eu hardal. Bydd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Gwynedd yn ffurfio pedwaredd ran 'Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw' ac yn cael ei gyhoeddi fel dogfen atodol i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

2.6 Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

2.6.1 Yn ogystal â defnyddio 'Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw' fel sail ar gyfer cynllunio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc hefyd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i ofynion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth wrth ddatblygu'r ddogfen hon.

2.6.2 Prif bwrpas y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yw cyfrannu at wireddu saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc drwy wella ansawdd gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc. Gwneir hyn yn bennaf drwy osod safonau i'w cyflawni gan Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill.

2.6.3 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i ofynion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ac wedi llwyddo i wneud cynnydd da yn erbyn nifer o'r safonau. Serch hynny, mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol wedi amlygu nifer o feysydd sydd angen sylw pellach gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc megis gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc a gwasanaethau i blant a phobl ifanc gydag anableddau. O ganlyniad, bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn rhoi sylw i'r meysydd hyn ac yn parhau i ymateb i ofynion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol drwy ymgorffori'r safonau perthnasol yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer y meysydd blaenoriaeth sydd wedi eu hadnabod ar gyfer y cynllun yma.

2.7 Casgliadau Cychwynnol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw

2.7.1 Er bod y gwaith o asesu lles ac adnabod anghenion plant a phobl ifanc Gwynedd a'u teuluoedd eto i'w gwblhau yn llawn, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth i lunio casgliadau cychwynnol ynghylch lles plant a phobl ifanc Gwynedd:

- At ei gilydd, mae lles plant a phobl ifanc yn gymharol dda. Ond, nid yw holl blant a phobl ifanc Gwynedd ar hyn o bryd yn cael mynediad at gyfleoedd, gwasanaethau ac adnoddau sy'n eu galluogi i fwynhau bywyd llawn a chyrraedd eu gwir botensial oherwydd cymysgedd o ffactorau personol, teuluol, cymdeithasol, economaidd a daearyddol. Yn amlwg, mae nifer o'r ffactorau hyn tu hwnt i ddylanwad y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Yr her, felly, i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw datblygu a meithrin trefniadau cydweithredu cadarn gydag ystod o bartneriaid a phartneriaethau ar draws pob sector er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad llawn at gyfleoedd, gwasanaethau ac adnoddau yn unol â'u hawliau.

- Mae ansawdd bywyd rhai grwpiau o blant a phobl ifanc yn cael ei lesteirio oherwydd eu hamgylchiadau. Mae'r grwpiau hyn o blant a phobl ifanc yn cynnwys plant a phobl ifanc gydag anableddau, plant a phobl ifanc mewn gofal, troseddwyr ifanc, gofalwyr ifanc a phlant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig. Yr her felly i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw datblygu systemau ar gyfer adnabod y plant, pobl ifanc a theuluoedd yma yn gynnar, asesu eu hanghenion yn llawn a chynllunio, darparu a chydlynu gwasanaethau integredig er mwyn ymateb yn effeithiol i'r anghenion hynny.

- Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae lleihad sylweddol wedi bod yn y nifer o blant a phobl ifanc sy'n byw yng Ngwynedd a rhagwelir y bydd niferoedd yn parhau i ostwng dros y blynyddoedd i ddod. Yn amlwg, mae lefel y gostyngiad yn peri pryder o safbwynt cymdeithasol, economaidd ac ieithyddol ac mae ganddo hefyd oblygiadau sylweddol i fywiogrwydd cymunedau Gwynedd ac i natur a strwythur gwasanaethau i'r dyfodol. Yr her, felly, i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau demograffaidd hyn drwy gynllunio, darparu a chydlynu gwasanaethau mewn modd newydd neu wahanol er mwyn ymateb yn llawn i anghenion plant a phobl ifanc Gwynedd a'u teuluoedd.

- Mae angen cryfhau'r ffocws ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau'r posibilrwydd a'r risg o osod plant a phobl ifanc mewn sefyllfaoedd neu amgylchiadau sy'n eu rhoi mewn perygl o ddatblygu anghenion dwys a chymhleth. Yr her, felly, i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw cynllunio, darparu a chydlynu gwasanaethau effeithiol sy'n atal plant a phobl ifanc rhag datblygu anghenion dwys a chymhleth yn y lle cyntaf tra'n parhau i gynnal gwasanaethau sydd yn ceisio ymateb i blant a phobl ifanc gydag anghenion dwys a chymhleth.

- Mae gan rieni a theuluoedd rôl allweddol i'w chwarae o safbwynt galluogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn potential. Yn wir, mae dylanwad rhieni a theuluoedd ar fywydau plant a phobl ifanc yn sylweddol. Ond, bydd rhai rhieni a theuluoedd angen cymorth a chefnogaeth o bryd i'w gilydd wrth fagu eu plant. Yr her, felly, i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw cynllunio, darparu a chydlynu gwasanaethau hygyrch a hyblyg sydd yn cefnogi a chynorthwyo rhieni a theuluoedd beth bynnag fo'u hamgylchiadau i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'w plant.

2.7.2 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gwbl hyderus felly fod y weledigaeth, egwyddorion a blaenoriaethau sydd yn y ddogfen hon wedi eu seilio ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion plant a phobl ifanc ac yn cynnig ffocws clir i waith y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc a gwaith ei phartneriaid dros y blynyddoedd nesaf.

2.7.3 Ond, nid dyma derfyn y broses. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn asesu lles ac yn adnabod anghenion plant a phobl ifanc Gwynedd yn barhaus er mwyn sicrhau fod cynlluniau, rhaglenni, polisïau a gwasanaethau'r bartneriaeth yn parhau i ymateb yn llawn i anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc y Sir.

3. Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Yfory

3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Wrth galon y Cynllun Plant a Phobl Ifanc mae gweledigaeth y Bartneriaeth Strategol ar gyfer hyrwyddo lles plant a phobl ifanc Gwynedd.

3.1.2 Mae'r weledigaeth yn gyson gyda'r weledigaeth a fabwysiadwyd ar gyfer 'Gwynedd Yfory', sef: 'Erbyn 2021, ein gweledigaeth yw y bydd Gwynedd wedi ymgymryd â'r her a'r cyfleoedd mewn byd sy'n newid i fod yn gymuned fwy bywiog, llewyrchus, agored a chydlynol sy'n ymfalchïo ac yn hyrwyddo ei asedau diwylliannol a naturiol unigryw ac sy'n cyfrannu'n bositif tuag at fyd mwy cynaliadwy'.

3.2 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

3.2.1 Gweledigaeth hirdymor y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd yw:

Erbyn 2021, bydd holl blant a phobl ifanc Gwynedd wedi gwireddu eu hawl i fyw bywyd hapus, bodlon a diogel, i leisio'u barn ac i gael mynediad at amrediad o gyfleoedd, gwasanaethau ac adnoddau a fydd yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn potensial

3.2.2 Cefnogir y weledigaeth gan saith amcan strategol sydd yn gyson gyda saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc, sef:

Amcan Strategol 1: **Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd.**

Amcan Strategol 2: **Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd addysg a dysgu i'w galluogi i gyflawni eu potensial.**

Amcan Strategol 3: **Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn mwynhau'r iechyd gorau posibl a'u bod yn rhydd o erledigaeth, camdriniaeth ac ecsploetiaeth.**

Amcan Strategol 4: **Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwarae, hamdden, chwaraeon a chymdeithasol.**

Amcan Strategol 5: **Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael clust i wrando, yn cael eu trin â pharch ac yn arddel eu hil, eu hiaith a'u hunaniaeth ddiwylliannol.**

Amcan Strategol 6: **Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol.**

Amcan Strategol 7: **Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn rhydd o anfantais oherwydd tlodi ariannol.**

3.2.3 Felly, pan fydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi cyflawni'r amcanion strategol a gwireddu'r weledigaeth, bydd plant a phobl ifanc Gwynedd yfory:

- Yn cael dechrau da mewn bywyd ac yn derbyn y gofal gorau er mwyn eu galluogi i ddatblygu'n llawn yn gorfforol ac yn emosiynol.
- Yn cael mynediad llawn at amrediad eang o gyfleoedd addysg ffurfiol ac anffurfiol o safon er mwyn eu galluogi i ennill a datblygu sgiliau ac i gyflawni eu potensial dysgu yn llawn.
- Yn byw bywyd iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a lles emosiynol da.
- Yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau egnïol, diwylliannol, creadigol, cymdeithasol a chymunedol.
- Yn hyderus wrth leisio eu barn ar wahanol faterion sy'n effeithio ar eu bywydau a'r byd o'u cwmpas ac yn cael eu trin â pharch gan oedolion.
- Yn byw mewn cartrefi addas ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, troseddau, damweiniau, trais a bwlio.
- Yn cael mynediad llawn at wasanaethau, cyfleoedd a chyfleusterau er gwaethaf amgylchiadau ariannol a materol y teulu.
- Yn derbyn gwasanaethau o ansawdd gan weithlu cymwys, profiadol a phroffesiynol.

3.2.4 Yn wir, mae'r deilliannau hyn yn sail ar gyfer **Siarter Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd** a gyflwynir yn Adran 4.

3.3 Egwyddorion

3.3.1 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymlynu at yr egwyddorion canlynol wrth roi'r weledigaeth a'r amcanion strategol ar waith:

- **Rhoi Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf** - Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau y rhoddir lles, hawliau ac anghenion plant a phobl ifanc yn gyntaf wrth gynllunio, comisiynu, darparu a gwerthuso gwasanaethau ar eu cyfer.

- **Hyrwyddo Cyfranogiad a Gwybodaeth** - Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau cyfranogiad llawn plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wrth gynllunio gwasanaethau a datblygu cynlluniau ar eu cyfer. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc hefyd yn sicrhau fod gwybodaeth glir a hygyrch ar gael i blant a phobl ifanc ynglŷn â'u hawliau a'r gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

- **Cydweithio'n Effeithiol Er Lles Plant a Phobl Ifanc** - Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid a phartneriaethau allweddol mewn dull agored a gonest er mwyn cynllunio, datblygu, comisiynu a darparu gwasanaethau hygyrch, agored, effeithiol, effeithlon ac o safon ac sydd wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth o angen.

- **Diogelu Plant a Phobl Ifanc** - Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau bod diogelwch plant a phobl ifanc yn ganolog yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

- **Buddsoddi Mewn Gwaith Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar** - Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn datblygu gwasanaethau a chynlluniau sydd â ffocws ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaethau sydd yn ceisio ymateb i blant a phobl ifanc gydag anghenion dwys a chymhleth.

- **Gwerthfawrogi Amrywiaeth a Hyrwyddo Cyfle Cyfartal** - Bydd y Bartneriaeth Strategol yn datblygu gwasanaethau a chynlluniau sydd yn gwerthfawrogi amrywiaeth Gwynedd ac sydd ddim yn camwahaniaethu unrhyw blentyn neu berson ifanc ar sail hil, iaith, rhyw, tueddfryd rhywiol, anabledd, oed na chrefydd yn unol â Pholisi Cydraddoldeb y bartneriaeth a Siarter Iaith Gwynedd.

- **Hyrwyddo Datblygiad Cynaliadwy** - Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn datblygu gwasanaethau a chynlluniau mewn dull sydd yn hyrwyddo egwyddorion datblygiad cynaliadwy gan felly gyfrannu'n gadarnhaol at nod 'Gwynedd Yfory' o greu Gwynedd a byd mwy cynaliadwy.

4. Siarter Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi ymrwymo'i hun yn llawn i weithredu'n gadarn dros hawliau plant a phobl ifanc.

4.1.2 Un o gamau cyntaf y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc pan y'i sefydlwyd yn Ionawr 2007 oedd mabwysiadu'n ffurfiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989).

4.1.3 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo hawliau pobl ifanc yn unol â'r 10 Hawl ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed sydd wedi eu hamlinellu yn nogfen 'Ymestyn Hawliau' Llywodraeth y Cynulliad.

4.1.4 Er mwyn sicrhau fod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu hyrwyddo mewn dull cyson a chydlynus ar draws yr ystod oedran, penderfynodd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ddatblygu a chyhoeddi **Siarter Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd**.

4.2 Siarter Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

4.2.1 Pwrpas y Siarter Hawliau yw cynorthwyo plant a phobl ifanc i wybod am eu hawliau, eu deall a'u gwireddu drwy osod allan yn glir wyth hawl sylfaenol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Ngwynedd.

4.2.2 Mae'r Siarter Hawliau hefyd yn ddatganiad cyhoeddus o ymrwymiad ac addewid y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i gynllunio a darparu gwasanaethau ac i ddatblygu cynlluniau yn unol â'r hawliau hyn.

4.3 Hawliau Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

4.3.1 Cyflwynir isod wyth hawl ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd. Mae'r hawliau isod yn gyson gyda Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) a'r 10 Hawl 'Ymestyn Hawliau'. Mae hefyd yn cynnig fframwaith ar gyfer hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc mewn dull cyson a chydlynus ar draws yr ystod oedran yn lleol.

Hawl 1: Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i gael dechrau da mewn bywyd ac i dderbyn y gofal gorau posibl er mwyn eu galluogi i ddatblygu'n llawn yn gorfforol ac yn emosiynol.

Hawl 2: Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i gael mynediad llawn at amrediad eang o gyfleoedd addysg ffurfiol ac anffurfiol o safon er mwyn eu galluogi i ennill a datblygu sgiliau ac i gyflawni eu potensial dysgu yn llawn.

Hawl 3: Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i fyw bywyd iach ac i fwynhau iechyd corfforol a lles emosiynol da.

<u>Hawl 4:</u> Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i gymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau egnïol, creadigol, diwylliannol, cymdeithasol a chymunedol.

<u>Hawl 5:</u> Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i leisio'u barn ar wahanol faterion sy'n effeithio ar eu bywydau a'r byd o'u cwmpas ac i gael eu trin â pharch gan oedolion.

<u>Hawl 6:</u> Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i fyw mewn cartrefi addas ac i gael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, troseddau, damweiniau, trais a bwlio.

<u>Hawl 7:</u> Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i gael mynediad llawn at wasanaethau, cyfleoedd a chyfleusterau er gwaethaf amgylchiadau ariannol a materol y teulu.

<u>Hawl 8:</u> Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i dderbyn gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor yn eu dewis iaith gan weithlu dwyieithog sydd yn gymwys, yn brofiadol, yn broffesiynol ac yn hyderus.

4.3.2 Yn ogystal ag amlinellu hawliau plant a phobl ifanc, mae'r Siarter hefyd yn nodi cyfrifoldebau plant a phobl ifanc tuag at ei gilydd ac eraill, fel a ganlyn:

<u>Cyfrifoldeb 1:</u> Mae gan blant a phobl ifanc gyfrifoldeb i barchu eu hunain, i barchu ei gilydd ac i barchu eraill beth bynnag fo eu hil, iaith, rhyw, tueddfryd rhywiol, anabledd, oed neu grefydd.

<u>Cyfrifoldeb 2:</u> Mae gan blant a phobl ifanc gyfrifoldeb i beidio â cham-drin, troseddu neu fwlio.

<u>Cyfrifoldeb 3:</u> Mae gan blant a phobl ifanc gyfrifoldeb i barchu'r byd o'u cwmpas ac i ofalu am yr amgylchedd.

<u>Cyfrifoldeb 4:</u> Mae gan blant a phobl ifanc gyfrifoldeb i ddysgu ac i ddatblygu hyd eithaf eu gallu ac i rannu eu profiadau a gwybodaeth lle bo hynny'n bosibl.

<u>Cyfrifoldeb 5:</u> Mae gan blant a phobl ifanc gyfrifoldeb i barchu a hyrwyddo hawliau ei gilydd a hawliau eraill er mwyn sicrhau fod pawb yn cael byw mewn cymdeithas deg a chyfiawn.

4.4 Gweithredu, Monitro ac Addasu'r Siarter Hawliau

4.4.1 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gyfrifol am hyrwyddo'r Siarter Hawliau a sicrhau fod aelodau'r bartneriaeth yn gweithredu'n unol â'i ofynion.

4.4.2 Datblygwyd y Siarter Hawliau mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ac felly bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol mewn cydweithrediad llawn â phlant a phobl ifanc ac yn cael ei addasu fel bo'r angen.

5. Meysydd Blaenoriaeth

5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Pwrpas yr adran yma yw cyflwyno'r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer Cynllun Plant a Phobl Ifanc cyntaf Gwynedd.

5.1.2 Defnyddiwyd casgliadau cychwynnol 'Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw' a gwybodaeth ynghylch perfformiad y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc o safbwynt cyflawni safonau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth fel sail ar gyfer adnabod, dewis a chytuno ar y meysydd blaenoriaeth.

5.1.3 Rhennir y meysydd blaenoriaeth i bedwar grŵp, fel a ganlyn:

Grŵp Blaenoriaeth 1 - Blaenoriaethau Allweddol: Mae'r rhain yn feysydd blaenoriaeth sydd angen sylw ac ymyrraeth ar lefel strategol gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc oherwydd y risg uchel i blant, pobl ifanc a theuluoedd o beidio ag ymateb i'r materion hyn.

Grŵp Blaenoriaeth 2 - Blaenoriaethau Uchel: Mae'r meysydd hyn yn rhai uchel o ran eu risg i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Er bod gan y Bartneriaeth Strategol y gallu i ymyrryd yn uniongyrchol yn rhai o'r meysydd blaenoriaeth hyn, bydd angen i'r bartneriaeth gydweithio a dylanwadu ar bartneriaid a phartneriaethau strategol eraill er mwyn ymyrryd mewn meysydd blaenoriaeth eraill.

Grŵp Blaenoriaeth 3 - Blaenoriaethau Canolig: Er nad yw'r rhain yn feysydd blaenoriaeth sydd yn peri risg uchel i blant, pobl ifanc a theuluoedd, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn teimlo eu bod yn faterion digon pwysig i'w cynnwys yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc oherwydd bod eu cynnwys yn cynnig gwerth ychwanegol i bartneriaid a phartneriaid strategol eraill.

Grŵp Blaenoriaeth 4 - Blaenoriaethau Isel: Nid yw'r rhain yn feysydd sydd yn peri risg uchel i blant, pobl ifanc a theuluoedd neu nid ydynt yn cael eu hystyried fel materion y mae gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc lawer o ddylanwad drostynt. O ganlyniad, nid yw'r meysydd hyn yn derbyn sylw yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

5.1.4 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn rhoi sylw blaenllaw i'r meysydd blaenoriaeth allweddol ac uchel ac yn sicrhau fod adnoddau yn cael eu cyfeirio'n briodol i wireddu cynlluniau o fewn y meysydd blaenoriaeth hyn.

5.2 Y Meysydd Blaenoriaeth

5.2.1 Cyflwynir isod y meysydd yn unol â'u trefn blaenoriaeth fesul amcan strategol. Mae nifer o'r meysydd blaenoriaeth hyn yn gysylltiedig â'i gilydd a nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw rhoi sylw i'r meysydd hynny a fydd, gyda'i gilydd, yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau plant a phobl ifanc Gwynedd dros y tair blynedd nesaf.

5.2.2 Amcan Strategol 1 – Cychwyn Gorau

Maes	Lefel Blaenoriaeth
Sgiliau Magu Plant	Allweddol
Y Blynyddoedd Cynnar	Uchel

5.2.3 Amcan Strategol 2 – Addysg a Chyfleoedd Dysgu

Maes	Lefel Blaenoriaeth
Plant a Phobl Ifanc dan Amgylchiadau Arbennig	Allweddol
Anghenion Dysgu Arbennig ac Anableddau	Allweddol
Hygyrchedd a Chyfleusterau Dysgu	Uchel
Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau	Uchel
Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid	Uchel
Gwaharddiadau	Canolig

5.2.4 Amcan Strategol 3 – Iechyd, Rhyddid o Gamdriniaeth ac Ecsploetiaeth

Maes	Lefel Blaenoriaeth
Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol	Allweddol
Cam-drin, Esgeulustod ac Ecsploetiaeth	Allweddol
Gofalwyr Ifanc	Allweddol
Gordewdra	Uchel
Diet / Maeth	Uchel
Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol	Uchel
Ysmygu	Uchel
Alcohol	Uchel
Cam-drin Sylweddau	Uchel
Bwlio	Uchel
Iechyd Deintyddol	Isel
Beichiogrwydd yn yr arddegau	Isel

5.2.5 Amcan Strategol 4 – Chwarae, Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant

Maes	Lefel Blaenoriaeth
Chwarae	Allweddol
Chwaraeon ac A.G. Mewn Ysgolion	Uchel
Cyfleoedd Hamdden a Chwaraeon	Uchel
Cyfleoedd Diwylliannol a Chelfyddydol	Canolig

5.2.6 Amcan Strategol 5 – Parch

Maes	Lefel Blaenoriaeth
Cyfranogi ac Eiriolaeth	Allweddol
Gwirfoddoli	Canolig
Siaradwyr Cymraeg	Isel
Grwpiau Lleiafrifol	Isel
Camwahaniaethu	Isel

5.2.7 **Amcan Strategol 6 – Cartref a Chymuned Ddiogel**

Maes	Lefel Blaenoriaeth
Digartrefedd	Allweddol
Cyflwr Tai	Uchel
Trais yn y Cartref	Uchel
Troseddwyr Ifanc / Plant a Phobl Ifanc Mewn Carchar	Uchel
Datblygu Cynaliadwy ac Ysgolion	Canolig
Anafiadau	Isel
Argaeledd Cludiant	Isel

5.2.8 **Amcan Strategol 7 – Rhyddid Rhag Tlodi**

Maes	Lefel Blaenoriaeth
Tlodi	Uchel
Tlodi Tanwydd	Uchel
Amddifadedd	Uchel

5.2.9 Cyflwynir yn yr adrannau nesaf cynlluniau a bwriadau'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth hyn o dan bob amcan strategol. Trefnir y wybodaeth yn unol â'r penawdau canlynol:

Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Nodir yma y rhesymau dros gynnwys y mater fel maes blaenoriaeth yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ynghyd â lefel blaenoriaeth y maes dan sylw.

Beth yw'r nod?

Nodir yma nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth.

Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

Nodir yma brif gynlluniau'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer gwireddu'r nod rhwng 2008 a 2011.

Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

Nodir yma yr hyn mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gobeithio y bydd wedi ei gyflawni mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth erbyn 2011.

Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Nodir yma enw'r corff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

5.2.10 Dylid nodi y gall y meysydd blaenoriaeth hyn newid yn dilyn yr ymgynghoriad ar y drafft hwn o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

6. Amcan Strategol 1 – Cychwyn Gorau

6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Amcan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd.

6.1.2 Yn wir, mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i gael dechrau da mewn bywyd ac i dderbyn y gofal gorau posibl er mwyn eu galluogi i ddatblygu'n llawn yn gorfforol ac yn emosiynol. Gellir atal llawer o broblemau yn ystod plentyndod a phroblemau gydol oes trwy gymryd y camau ymyrryd perthnasol mor gynnar ag sy'n bosibl gyda phlant, eu rhieni, y teulu ehangach a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael cymorth a chefnogaeth yn gynnar iawn mewn bywyd, felly, yn fwy effeithiol ac effeithlon nag ymateb i broblemau ymhellach ymlaen mewn bywyd.

6.2 Blaenoriaethau Cenedlaethol

6.2.1 Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

6.2.2 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio hyrwyddo a datblygu'r maes yma drwy gyfres o gynlluniau penodol megis Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen yn ogystal â chyhoeddi polisïau a rheoliadau yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar, megis darpariaeth gofal plant.

6.2.3 Blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad, felly, yw:

- Cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant gan sicrhau fod gofal plant o ansawdd ar gael, yn arbennig ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ac ar gyfer plant gydag anghenion niferus.

- Gwella gwasanaethau cyn-geni a mamolaeth.

- Gwella iechyd plant ifanc.

- Cynorthwyo rhieni i ddatblygu eu sgiliau magu plant er mwyn eu galluogi i gefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol eu plant.

6.2.4 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymateb i'r blaenoriaethau hyn fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer meysydd blaenoriaeth yr amcan strategol hwn.

6.3 Blaenoriaethau Lleol

6.3.1 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi adnabod dau faes blaenoriaeth ar gyfer yr amcan strategol yma, sef **sgiliau magu plant** a'r **blynyddoedd cynnar**.

6.4 Sgiliau Magu Plant

6.4.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae dull cadarnhaol o fagu plant yn cael effaith gref a manteisiol ar ganlyniadau plant a phobl ifanc ac mae'n un ffactor bwysig sy'n eu diogelu rhag risgiau eraill. Er nad oes gwybodaeth gadarn ar gael ynglŷn ag arferion a sgiliau magu plant yng Ngwynedd, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn llwyr ymwybodol o'r angen i fuddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni a fydd yn galluogi rhieni i ddatblygu ac ennill sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu galluogi i fagu eu plant yn effeithiol a'u cynorthwyo i ffynnu a chyrraedd eu potensial yn llawn. O ganlyniad, mae sgiliau magu plant wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

6.4.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw hyrwyddo cymorth rhiantu o ansawdd da ar gyfer rhieni er mwyn galluogi eu plant i ffynnu a chyrraedd eu potensial yn llawn.

6.4.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Mapio'r rhaglenni a chynlluniau rhiantu sy'n bodoli ac yn weithredol yng Ngwynedd ar hyn o bryd.
- Mapio'r cynlluniau sydd yn weithredol yng Ngwynedd ac sydd yn berthnasol i'r maes rhiantu megis Dechrau'n Deg, Cychwyn Cadarn, Cadw Mewn Cysylltiad.
- Adolygu gwaith ymchwil cenedlaethol er mwyn adnabod enghreifftiau o arfer da ym maes rhiantu.
- Ymgynghori gydag asiantaethau cenedlaethol a lleol sydd â diddordeb ym maes rhiantu gan greu cysylltiadau effeithiol gyda gwasanaethau eraill perthnasol gyda golwg ar brif ffrydio materion rhiantu.
- Arfarnu Strategaethau Rhiantu a chynlluniau rhiantu nodedig sy'n bodoli eisoes mewn siroedd a gwledydd eraill.
- Hyfforddi aelodau perthnasol o staff a'u mentora i gynnal cyrsiau rhiantu effeithiol.
- Datblygu a chyhoeddi Strategaeth Rhiantu cadarn i Wynedd.
- Hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun Croesawu Bwydo'r Fron.

6.4.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd yr holl wasanaethau presennol ym maes rhiantu wedi eu mapio yn llawn, a bydd gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wybodaeth am:

  (a) Argaeledd staff sydd â'r sgiliau, y profiad a'r hyfforddiant ar gyfer cyflwyno a chynnal rhaglenni rhiantu.
  (b) Argaeledd amrywiaeth o raglenni ac adnoddau ar gyfer cwrdd ag anghenion amrywiol, ar lefel unigol ac o fewn cymunedau.
  (c) Argaeledd yr holl adnoddau angenrheidiol, yn enwedig darpariaeth gofal plant ac adeiladau addas ar gyfer caniatáu i'r grwpiau gymryd lle.
  (ch) Hygyrchedd rhaglenni ac adnoddau ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.
  (d) Hygyrchedd rhaglenni ac adnoddau cyfrwng Cymraeg.
  (dd) Hygyrchedd rhaglenni ac adnoddau cyfrwng Cymraeg sy'n addas ar gyfer rhieni.

- Bydd Strategaeth Rhiantu clir a chadarn wedi ei lunio ac yn weithredol o fewn y Sir.

- Bydd gwaith penodol gyda thadau wedi ei ddatblygu a'i gryfhau.

- Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi arwyddo tystysgrif o ymrwymiad UNICEF ar gyfer Bwydo o'r Fron.

- Bydd y Cynllun Croesawu Bwydo o'r Fron yn weithredol a bydd barn mamau am gyfleusterau a gweithrediad y cynllun yn cael ei gasglu'n rheolaidd.

6.4.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd y Grŵp Cynllunio a Datblygu - Rhiantu, Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

6.5 Y Blynyddoedd Cynnar

6.5.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae'r gefnogaeth a'r symbyliad y mae plant yn eu cael yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn cael effaith sylfaenol ar eu gallu ac ar eu potensial gydol eu bywyd. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol nad yw pob plentyn yng Ngwynedd yn cael dechrau da mewn bywyd ar hyn o bryd a bod angen felly adnabod anghenion plant yn gynnar iawn a buddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni, gan gynnwys gofal plant o ansawdd, i roi'r cychwyn gorau i bob plentyn. O ganlyniad, mae'r blynyddoedd cynnar wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

6.5.2 Beth yw'r nod?

Mae gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ddau nod mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth, sef:

- Sicrhau bod pob plentyn yng Ngwynedd yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd a'r cyfle i ddatblygu eu potensial yn llawn yn ystod y blynyddoedd cynnar.

- Sicrhau bod y farchnad gofal plant yng Ngwynedd yn diwallu anghenion rhieni a phlant drwy gynnal a darparu amrywiaeth o wasanaethau gofal plant o ansawdd uchel.

6.5.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Cynnal a chwblhau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant o fewn blwyddyn i'r dyddiad y daw'r Ddeddf Gofal Plant 2006 i rym ac yna bob tair blynedd wedi hynny.
- Gweithredu'r Cynllun Dechrau'n Deg o fewn tair ardal yng Ngwynedd.
- Cynnal peilot o'r cynllun 'Cynnal Ymddygiad' o fewn sefydliadau sy'n darparu gofal plant ar gyfer y Cynllun Dechrau'n Deg.
- Cynnal asesiadau SOGS ('Schedule of Growing Skills') ar blant sydd yn rhan o'r Cynllun Dechrau'n Deg.
- Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen o Fedi 2008 ymlaen.
- Gwella Ansawdd darpariaethau gofal plant (gan ddefnyddio marc ansawdd newydd Llywodraeth y Cynulliad os bydd yn weithredol cyn 2011).
- Casglu gwybodaeth am weithlu'r Blynyddoedd Cynnar a darparu hyfforddiant perthnasol i'r maes.
- Cynnig grantiau i wella ansawdd darpariaeth gofal plant neu i gychwyn darpariaeth gofal plant.

6.5.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd yr awdit o ddarpariaethau gofal pant yng Ngwynedd wedi ei gwblhau'r gyda'r wybodaeth wedi ei gyflwyno ar sail pyramid o angen.

- Bydd diffygion o safbwynt y mathau o ddarpariaethau ac ar sail ddaearyddol ac yn nhermau dilyniant wedi eu hadnabod yn llawn.

- Bydd Cynllun Gofal Plant cynhwysfawr wedi ei gyhoeddi ar sail canlyniadau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

- Bydd cynhadledd wedi ei gynnal ar y Blynyddoedd Cynnar er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r maes ac amlygu arferion da.

- Bydd grantiau gofal plant wedi eu targedu'n briodol ar sail angen yn unol â chanlyniadau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.

6.5.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd y Grŵp Cynllunio a Datblygu - Rhiantu, Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

6.6 Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

6.6.1 Mae nifer o safonau o fewn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth sydd yn berthnasol i'r ddau faes blaenoriaeth a fydd yn derbyn sylw gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymateb i'r blaenoriaethau hyn:

Maes Blaenoriaeth	Safon(au)
Sgiliau Magu Plant	2.40, 2.48, 2.49, 2.44 3.5, 3.6, 3.7, 3.19, 3.9, 3.12, 3.8, 3.29, 3.11, 3.15, 3.14, 3.16, 3.17, 3.22, 3.28, 3.20, 3.24 5.6, 5.7, 5.22, 5.13, 5.21, 5.31 6.2
Y Blynyddoedd Cynnar	2.40, 2.47, 2.60, 2.41, 2.44, 2.48 3.1, 3.2, 3.4, 3.7, 3.10, 3.11, 3.17, 3.22, 3.24, 3.28, 3.30 5.2, 5.29, 5.28

7. Amcan Strategol 2 – Addysg a Chyfleoedd Dysgu

7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Amcan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd addysg a dysgu i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

7.1.2 Yn wir, mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i gael mynediad llawn at amrediad eang o gyfleoedd addysg ffurfiol ac anffurfiol o safon er mwyn eu galluogi i ennill a datblygu sgiliau a chyflawni eu potensial dysgu yn llawn.

7.1.3 Mae cyflawni lefel isafswm o gyrhaeddiad addysgol yn hanfodol ar gyfer hapusrwydd, llwyddiant a lles unigolion. Mae mynediad at ddarpariaeth addysg briodol, effeithiol ac o safon yn hanfodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylai pob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan mewn addysg llawn amser; cael adnabod y rhwystrau i ddysgu yn gynnar a chael gwared ohonynt; cyrraedd eu llawn botensial; parhau mewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol hyd at 19 oed, a chyflawni lles economaidd a chymdeithasol. Yn wir, mae profiadau addysgol a dysgu ffurfiol ac anffurfiol cadarnhaol yn galluogi plant a phobl ifanc i sicrhau canlyniadau ystyrlon a pharhaol o ran eu hiechyd, lles personol a rhagolygon economaidd mewn bywyd.

7.2 Blaenoriaethau Cenedlaethol

7.2.1 Mae sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael mynediad at amrediad o gyfleoedd addysg a dysgu yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

7.2.2 Amlygir blaenoriaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas ag addysg a dysgu yn bennaf yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', sef:

- Cyflwyno cwricwlwm sy'n seiliedig ar sgiliau o 2008 ymlaen a threfniadau asesu diwygiedig.
- Gwella perfformiad ysgolion, yn arbennig trwy godi safonau yn yr ysgolion hynny sy'n tanberfformio.
- Cyflwyno Cyfnod Sylfaen statudol gyda chwricwlwm ar gyfer plant 3 i 7 oed yn seiliedig ar egwyddorion ac arfer gorau dysgu yn y blynyddoedd cynnar ac arfer da presennol yng Nghyfnod Allweddol 1.
- Gwella trosglwyddo rhwng cyfnodau dysgu, yn arbennig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Gweithredu gofynion Llwybrau Dysgu 14 - 19 ym mhob ysgol a lleoliad addysg bellach a dysgu sy'n seiliedig ar waith. Hynny yw, llwybrau dysgu unigol, dewis ehangach o arlwy opsiynau, y craidd dysgu, cefnogaeth anogwyr dysgu, mynediad at gefnogaeth bersonol a chyngor gyrfaoedd.

- Cynorthwyo ymarferwyr i gymryd rhan yn y dysgu ac addysgu mwyaf effeithiol.

- Datblygu ffocws cymunedol ar gyfer ysgolion a gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol.

- Sicrhau bod pob ysgol a gynhelir yn dod yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Iach.

- Darparu a chomisiynu gwasanaethau cynghori mewn ysgolion.

- Sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid o safon.

- Hyrwyddo lles a chynhwysiad cymdeithasol disgyblion, yn arbennig disgyblion gydag anghenion addysg ychwanegol.

7.2.3 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymateb i'r blaenoriaethau hyn fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer meysydd blaenoriaeth yr amcan strategol hwn.

7.3 Blaenoriaethau Lleol

7.3.1 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi adnabod chwe maes blaenoriaeth ar gyfer yr amcan strategol yma, sef **anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau**; **plant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig**; **addysg, hyfforddiant a sgiliau**; **hygyrchedd a chyfleusterau dysgu**; **gwasanaethau cymorth ieuenctid** a **gwaharddiadau**.

7.4 Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anableddau

7.4.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Gwelwyd cynnydd yng Ngwynedd dros y blynyddoedd diwethaf yn y nifer o blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a / neu anableddau a rhagwelir y bydd cynnydd pellach dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn llwyr ymwybodol o'r angen i fuddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol a / neu anableddau i wella eu canlyniadau addysgol ac i gynyddu eu cyfranogiad a chynhwysiad mewn sefyllfaoedd addysgol. O ganlyniad, mae anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

7.4.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw codi safonau a sicrhau cynhwysiant llawn bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a / neu anableddau.

7.4.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datganoli cyllid er mwyn datgloi potensial ysgolion arbennig.
- Hyrwyddo'r defnydd o Adolygiadau Person Canolog er mwyn gwella trefniadau trosglwyddo yn ystod cyfnodau trosiannol.
- Hyfforddi staff ar ELKAN, Ffocws ar Ddatrysiad, Ffactorau Risg Iechyd Meddwl a strategaethau datblygu llythrennedd.
- Sicrhau cydweithrediad llawn Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ac Adran Therapi Iaith a Lleferydd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru.
- Ymestyn a hyrwyddo Cynllun Webster Stratton ar draws ysgolion Gwynedd.
- Datblygu tîm o gymorthyddion iaith a lleferydd.
- Datblygu tîm o gymorthyddion arbenigol llythrennedd.
- Cyflogi Swyddogion Monitro Anghenion Addysg Ychwanegol ranbarthol.
- Datblygu tîm o gymorthyddion arbenigol ym maes Awtistiaeth.
- Sicrhau hyfforddiant i staff ym meysydd synhwyraidd, corfforol a meddygol.

7.4.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd cynhwysiad digonol ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Addysg Ychwanegol, anghenion dwys a / neu anableddau yn y prif lif wedi ei sicrhau yn sgil effeithiolrwydd Ysgolion Anghenion Arbennig.

- Bydd nifer cynyddol o blant a phobl ifanc gydag Anghenion Addysg Ychwanegol, anghenion dwys a / neu anableddau yn derbyn addysg prif lif o safon yn dilyn rhaglen datgloi potensial ysgolion arbennig.

- Bydd athrawon a chymorthyddion wedi eu huwchsgilio er mwyn diwallu anghenion llythrennedd plant a phobl ifanc o fewn y prif lif.

- Bydd dylanwad ymyrraeth gynnar wedi arwain at gynnydd yn safonau plant a phobl ifanc gydag Anghenion Addysg Ychwanegol, anghenion dwys a / neu anableddau o fewn y prif lif, yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 2.

- Bydd cynnydd wedi ei wneud mewn gweithredu ataliol yn yr ysgolion er mwyn lleihau anawsterau plant a phobl ifanc.

- Bydd gwell trefniadau trosglwyddo mewn lle ar gyfer cyfnodau trosiannol yn dilyn adolygiad person canolog.

- Bydd darpariaeth berthnasol arbenigol i blant a phobl ifanc gydag anhwylderau cyfathrebu a rhyngweithio, anhwylderau iaith ac ôl gynnydd wedi ei sicrhau.

- Bydd staff ysgolion yn adnabod ffactorau risg iechyd meddwl ac yn gweithredu'n briodol drwy greu llwybrau gofal.

- Bydd Cynllun Webster Stratton yn parhau i gael ei hyrwyddo a'i weithredu ar draws holl ysgolion Gwynedd.

- Bydd gan ysgolion ddealltwriaeth dda o anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion ac o ddulliau Canolbwyntio ar Ddatrysiad.

- Bydd swyddogion monitro yn sicrhau cysondeb a lefel darpariaeth i ddisgyblion.

- Bydd arian llythrennedd a rhifedd wedi ei ddatganoli i ysgolion.

7.4.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc mewn cydweithrediad â'r Tîm Seicolegol, Cynnal, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, y Gwasanaeth Arbenigol Plant, y Tîm Cynnal Ymddygiad, Athrawon Arbenigol AAA, y Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ac Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig.

7.5 Plant a Phobl Ifanc Dan Amgylchiadau Arbennig

7.5.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Nid yw plant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig bob amser yn cyflawni ac yn cyrraedd eu llawn potensial o fewn y system addysg. Mae esiamplau o'r plant a phobl ifanc hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn gofal, gofalwyr ifanc, troseddwyr ifanc a mamau yn eu harddegau. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn llwyr ymwybodol o'r angen i fuddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni i godi safonau addysgol plant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig a'u galluogi i gyflawni eu llawn potensial. O ganlyniad, mae plant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

7.5.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw codi safonau a sicrhau cynhwysiant llawn bob plentyn a pherson ifanc dan amgylchiadau arbennig ac ymateb yn llawn i'w anghenion emosiynol a chymdeithasol.

7.5.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Sicrhau hyfforddiant i uwchsgilio athrawon, anogwyr dysgu a chymorthyddion mewn dulliau cynnal ymddygiad, cymorth emosiynol a chymorth cymdeithasol.
- Cynllunio i ddarparu'n effeithiol i gynorthwyo disgyblion dan amgylchiadau arbennig drwy sefydlu tîm o athrawon a chymorthyddion arbenigol.
- Ehangu'r Tîm Swyddogion Lles / Cynhwysiad Addysg i alluogi gwasanaeth dalgylchol ar draws Gwynedd.

- Sicrhau cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith i uwchsgilio tîm o Swyddogion Lles / Cynhwysiad Addysg i'w galluogi i ddarparu'n effeithiol ar gyfer categorïau o blant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig.
- Llunio a gweithredu Cynllun Ôl-Arolwg mewn ymateb i Arolwg Estyn o Gynhwysiad Cymdeithasol a Lles Disgyblion yng Ngwynedd.
- Sicrhau darpariaeth Unedau Cyfnod Allweddol 1, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 ar draws rhanbarthau Gwynedd er mwyn cynnig cyfnodau o addysg therapiwtig bwrpasol i ddisgyblion gydag anghenion ac anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol.

7.5.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg addas sy'n diwallu eu hanghenion.

- Bydd polisïau a gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo cyfranogiad llawn plant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig yn weithredol ac yn arwain at ddileu rhwystrau i ddysgu a dathlu amrywiaeth.

- Bydd Fforymau Hyrwyddo Ymddygiad ac Ymarfer Dda wedi eu sefydlu ac yn weithredol.

- Bydd grwpiau o ddisgyblion penodol yn derbyn cymorth priodol i integreiddio'n llawn i'r cwricwlwm a gweithgareddau a digwyddiadau addysgol.

- Bydd cefnogaeth lawn yn cael ei roi i bob dysgwr er mwyn eu galluogi i gael mynediad at lwybrau dysgu addas.

- Bydd cynlluniau perthnasol i ymdrin ag anghenion pob dysgwr yn weithredol, yn arbennig ar gyfer: (i) disgyblion sy'n destun datganiad, (ii) disgyblion sydd ar gyfnodau AAA, (iii) disgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig gydag anghenion ychwanegol, (iv) disgyblion sydd â Saesneg neu Gymraeg yn iaith ychwanegol, (v) plant ffoaduriaid, (vi) plant a phobl ifanc gydag anghenion meddygol, (vii) rhieni ifanc a merched beichiog, (viii) troseddwyr ifanc, (ix) disgyblion sydd â'u teuluoedd yn wynebu amodau anodd, (x) disgyblion lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, (xi) plant a phobl ifanc talentog a galluog, (xii) plant a phobl ifanc o deuluoedd sipsiwn neu deithwyr, (xii) plant a phobl ifanc ffobig a phlant a phobl ifanc sy'n gwrthod mynychu ysgol, a (xiii) plant a phobl ifanc sy'n perfformio neu sydd mewn cyflogaeth.

- Bydd cynnydd yn hygyrchedd adeiladau, addysg, y cwricwlwm, gweithgareddau a digwyddiadau yn sgil nodi a dileu rhwystrau i fynediad a chynhwysiad.

- Bydd cynhwysedd ysgolion i ddarparu'n eang ac yn gytbwys wedi ei gynyddu.

- Bydd Addysg Tu Allan i Ysgol yn cael ei ddarparu yn effeithiol ac yn arwain at gymwysterau ac achrediadau cydnabyddedig.

- Bydd systemau ar gyfer monitro a gwerthuso lefelau cynhwysiad ar draws ysgolion Gwynedd wedi eu sefydlu.

- Bydd systemau effeithiol wedi eu sefydlu ar gyfer sicrhau diogelwch pob categori o ddisgyblion o fewn ysgolion a thu hwnt.

7.5.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc mewn cydweithrediad â'r Tîm Lles / Cynhwysiad, y Tîm Seicolegol, y Cydbwyllgor Anghenion Addysg Arbennig, Cynnal, y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (Cyngor Gwynedd), gwasanaethau priodol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru ac Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig.

7.6 Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau

7.6.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae derbyn addysg dda ac o safon yn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc ac yn eu galluogi i gyrraedd eu potensial yn llawn. Mae sicrhau fod gan bobl ifanc hefyd fynediad lawn at hyfforddiant yn allweddol er mwyn eu galluogi i ddatblygu ac ennill sgiliau, gan gynnwys sgiliau sylfaenol, y mae arnynt eu hangen i gyflawni'n bersonol a manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth.

Yn 2006, yr oedd perfformiad mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol ac arholiadau yn amrywio. Gwelwyd ychydig o ostyngiad yn y ganran a lwyddodd i ennill y lefel disgwyliedig yn y pynciau unigol yng Nghyfnod Allweddol 1. Ond, yr oedd y ganran a lwyddodd i enillodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn parhau'n uwch na'r ffigwr genedlaethol ac yn gosod Gwynedd yn yr hanner uchaf yn genedlaethol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, yr oedd y ganran yn cyrraedd Lefel 4 yn y Dangosydd Pynciau Craidd wedi gwella ychydig gan felly osod Gwynedd yn yr hanner uchaf yn genedlaethol. Gwelwyd ychydig o ostyngiad yn y ganran oedd wedi cyrraedd y lefel disgwyliedig yn Saesneg a Gwyddoniaeth ond arhosodd Mathemateg yn gyson.

Yn 2006, gwelwyd gostyngiad yn y ganran yn ennill y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg a'r Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 ond gwelwyd cynnydd mewn gwyddoniaeth.

Yr oedd perfformiad Gwynedd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dda a gwelwyd cynnydd yn y nifer yn ennill 5 A* - C neu gyfwerth â hynny. Er bod cyflogwyr yn nodi diffyg sgiliau ymhlith llawer o bobl ifanc, mae'r ganran yng Ngwynedd sy'n gadael addysg yn ddigymhwyster yn isel.

Fel gyda Chyfnod Allweddol 4, yr oedd dysgwyr Gwynedd wedi perfformio'n dda yn eu harholiadau Safon Uwch (Lefel A).

Mae mwyafrif helaeth o ysgolion yng Ngwynedd sydd wedi wynebu Arolwg Estyn yn y blynyddoedd diwethaf wedi derbyn adroddiadau cadarnhaol a'r her bellach yw sicrhau fod pob sefydliad yn derbyn Gradd 2 neu uwch ymhob Cwestiwn Allweddol.

Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn gwbl ymwybodol o'r angen i fuddsoddi ymhellach ym maes addysg, hyfforddiant a sgiliau yng Ngwynedd er mwyn sicrhau fod holl blant a phobl ifanc y Sir yn cyrraedd ac yn cyflawni eu potensial dysgu yn llawn. O ganlyniad, mae addysg, hyfforddiant a sgiliau wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

7.6.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau'r safonau uchaf posibl ym mhob maes drwy gydweithio, herio a monitro effeithiol a drwy sicrhau bod yr isadeiledd, trefniadau llywodraethu a chynhwysedd sefydliadau addysgol lleol yn diwallu gofynion ac anghenion cenedlaethol a lleol yn llawn.

7.6.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Clustnodi adnoddau digonol i sicrhau sylw manwl a dwys i godi safonau.
- Adnabod bylchau yn y ddarpariaeth bresennol a chynllunio i ddiwallu'r amryfal anghenion.
- Adnabod bylchau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynllunio i oresgyn y rhwystrau.
- Cefnogi ysgolion i godi safonau cyflawniad ac i gyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig.
- Sicrhau adnoddau a chyfleoedd digonol ar gyfer hyfforddiant o'r radd flaenaf.
- Datblygu patrymau mwy effeithiol o gydweithio i gefnogi dysgwyr bregus.
- Clustnodi adnoddau digonol i sicrhau dilyniant i'r gwaith 'Comisiwn Cydweithio' a'r 'Braenaru Daearyddol' fel bod: (i) y gyfundrefn bresennol yn cael ei hail-gyflunio (i gynnwys rhesymoli ar yr holl grwpiau strategol yn y maes), (ii) trefn reoli newydd yn weithredol, (iii) trefn atebolrwydd glir yn ei lle a gweithdrefnau rheoli ansawdd, a (iv) trefniadaeth ffurfiol ar gyfer cydweithio yn weithredol.
- Adnabod bylchau yn y ddarpariaeth gwricwlaidd bresennol, cynllunio i ddiwallu'r amryfal anghenion a chytuno ar gwricwlwm ardal.
- Sicrhau arweiniad priodol i sefydliadau i gryfhau trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer darpariaethau cydweithredol.
- Sicrhau cynhwysedd lleol ar gyfer cefnogi datblygiadau e-ddysgu, yn benodol: (i) cyflwyno rhaglen hyfforddiant strwythuredig ar gyfer agweddau pedagogaidd a thechnolegol, a (ii) datblygu deunyddiau aml-gyfrwng dwyieithog.

- Cefnogi sefydliadau i godi safonau cyflawniad ac i gyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig, yr amryfal fframweithiau, sgiliau sylfaenol, sgiliau allweddol, sgiliau allweddol ehangach, y Craidd Dysgu, Y BAC Cymreig a menter / entrepreneuriaeth. Yn benodol, bydd angen: (i) diffinio rhaglen waith y Gwasanaeth Ymgynghorol, (ii) sicrhau adnoddau digonol i gyflwyno'r gefnogaeth, yr arweiniad a'r hyfforddiant perthnasol i bob sefydliad dysgu, a (iii) sicrhau adnoddau digonol i sefydliadau gynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflwyno'r elfennau uchod.
- Sicrhau adnoddau digonol ar gyfer hyfforddi a chyflogi Anogwyr Dysgu.
- Datblygu patrymau mwy effeithiol o gyd-weithio aml-asiantaethol i gefnogi dysgwyr bregus a chynyddu cynhwysedd sefydliadau unigol i weithredu ar lefel gychwynnol.

7.6.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd y Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008 yn cael ei weithredu'n hyderus yn yr ysgolion.

- Bydd y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cael ei gweithredu'n hyderus yn yr ysgolion.

- Bydd ysgolion wedi derbyn arweiniad / cynhaliaeth briodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig .

- Bydd pob sefydliad addysgol 11 – 18 oed yn cyflwyno'r BAC Cymreig fel rhan o'r arlwy opsiynau.

- Bydd sgiliau yn ogystal â gwybodaeth yn cael sylw da ym mhob ysgol.

- Bydd sgiliau mentergarwch ac entrepreneuriaeth yn amlwg yng nghwricwlwm pob ysgol.

- Bydd pob ysgol yn parhau i roi'r pwyslais pennaf ar godi safonau cyflawniad ar draws y cwricwlwm.

- Bydd pob ysgol wedi derbyn achrediad Marc Safon.

- Bydd pob ysgol wedi ymuno â'r cynlluniau 'Ysgol Iach' ac 'Ysgol Werdd'.

- Bydd cyfranogiad disgyblion yn cael sylw amlwg ym mywyd pob ysgol.

- Bydd y gyfundrefn ar gyfer cyflwyno addysg 16+ oed wedi ei diwygio.

- Bydd patrymau cydweithio ar gyfer cyd-ddarparu wedi eu grymuso a'u ffurfioli.

- Bydd pob dysgwr yn cael mynediad i gwricwlwm ardal fydd yn cwrdd â'r gofynion deddfwriaethol.

- Bydd y Cwricwlwm 14-19 wedi ei alinio gydag anghenion y farchnad lafur yn lleol.

- Bydd pob llwybr dysgu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

- Bydd pob sefydliad wedi derbyn arweiniad a chynhaliaeth briodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig (gan gynnwys y fframweithiau statudol ac anstatudol).

- Bydd pob sefydliad 11-18 yn cyflwyno'r BAC Cymreig fel rhan o'r arlwy opsiynau.

- Bydd darpariaethau ar gyfer datblygu Sgiliau Sylfaenol wedi eu grymuso ar draws sefydliadau dysgu.

- Bydd darpariaethau ar gyfer datblygu ac achredu y Sgiliau Allweddol a'r Sgiliau Allweddol Ehangach wedi eu grymuso ar draws sefydliadau dysgu.

- Bydd darpariaethau ar gyfer meithrin sgiliau Menter ac Entrepreneuriaeth wedi eu ffurfioli a'u grymuso.

- Bydd rhaglenni arweiniol perthnasol wedi eu cyflwyno i ysgolion i godi safonau cyflawniad ar draws y cyfnodau allweddol.

- Bydd cynhaliaeth a chefnogaeth Anogwr Dysgu ar gael i bob dysgwr ym mhob sefydliad addysgol.

- Bydd cynhaliaeth bersonol o ansawdd uwch ar gael i ddysgwyr ar draws yr ystod sefydliadau.

7.6.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Oherwydd ehangder y maes blaenoriaeth bydd nifer o gyrff yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc gan gynnwys Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Gwynedd; Cynnal; y Grŵp Llywio Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau; Rhwydwaith 14 - 19 Gwynedd; Coleg Menai; Coleg Meirion-Dwyfor; Darparwyr Hyfforddiant megis Hyfforddiant Gwynedd a Hyfforddiant Arfon-Dwyfor; Prifysgol Bangor ac Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd.

7.7 Hygyrchedd a Chyfleusterau Dysgu

7.7.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae plant a phobl ifanc yn cyflawni'n well mewn ysgolion addas sydd yn gallu ymateb yn llawn i anghenion dysgu ac addysg fodern. Mae 106 o Ysgolion Cynradd, 14 o Ysgolion Uwchradd, 3 Ysgol Arbennig ac 1 Uned Cyfeirio Disgyblion yng Ngwynedd sydd yn gwasanaethu cyfanswm o 18,111 o ddisgyblion (yn 2006). Yn ystod 2006/07, yr oedd 20.7% o lefydd gwag mewn Ysgolion Cynradd a 8.5% mewn Ysgolion Uwchradd yng Ngwynedd. Yn ogystal, mae cyflwr ac addasrwydd yn ogystal â'r defnydd a wneir o gyfleusterau ysgolion gan y gymuned ehangach yn amrywio'n fawr ar draws y Sir.

Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn derbyn nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy i'r dyfodol a bod angen datblygu isadeiledd sy'n addas ar gyfer addysg fodern, sy'n lleihau llefydd gweigion ac sy'n datblygu'r defnydd o adeiladau ysgol i gyflwyno gwasanaethau i'r gymuned. O ganlyniad, mae hygyrchedd a chyfleusterau dysgu wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

7.7.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw datblygu ysgolion sydd yn gallu ymateb yn llawn i ofynion ac anghenion addysg a dysgu modern, sydd yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau i'r gymuned ehangach ac sydd yn gynaliadwy i'r dyfodol.

7.7.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu, cytuno a gweithredu cynllun clir ar gyfer ad-drefnu addysg gynradd ac addysg uwchradd o fewn y Sir.
- Gweithredu strategaeth ar gyfer sicrhau fod un Ysgol Uwchradd ym mhob rhanbarth ac un Ysgol Gynradd ym mhob dalgylch yn ddynodedig ar gyfer sicrhau mynediad at gwricwlwm llawn i blant a phobl ifanc gydag anableddau.
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Ysgolion yn Canolbwyntio ar y Gymuned er mwyn codi safonau disgyblion a chreu hinsawdd sy'n hyrwyddo gweithgareddau cymunedol a gofal mewn modd cynhwysol.

7.7.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd cynlluniau clir mewn lle ar gyfer ad-drefnu addysg gynradd ac uwchradd o fewn y Sir gyda threfniadau cadarn mewn lle ar gyfer gweithredu ar y cynlluniau hyn.

- Bydd gan blant a phobl ifanc gydag anableddau fynediad lawn at addysg a chyfleoedd dysgu.

- Bydd ysgolion wedi paratoi prosbectws canolbwyntio ar y gymuned ac wedi treialu amrediad o weithgareddau yn unol â'r Strategaeth Ysgolion yn Canolbwyntio ar y Gymuned.

7.7.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

7.8 Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

7.8.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000) yn gosod dyletswydd statudol ar y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i gynllunio, cydlynu a darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Arolygwyd Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc gan Estyn (Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ym Mawrth 2008 a nodwyd nifer o nodweddion da yn ogystal â diffygion sydd angen sylw. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn gwbl ymroddedig i ymateb yn llawn i ganfyddiadau ac argymhellion Arolwg Estyn a buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid o safon a fydd yn galluogi a chynorthwyo pobl ifanc Gwynedd i gymdeithasu, i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ac i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau. O ganlyniad, mae gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

7.8.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod gan bobl ifanc Gwynedd fynediad lawn at amrediad eang o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid lleol o ansawdd uchel sy'n cael eu cydlynu'n effeithiol.

7.8.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Mapio a phroffilio Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Gwynedd yn llawn er mwyn adnabod ac ymateb i fylchau, dyblygu a gorgyffwrdd yn y ddarpariaeth a chydlynu gwasanaethau yn effeithiol.
- Ehangu mynediad pobl ifanc at wybodaeth ynglŷn â'u hawliau a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol drwy sefydlu newyddlen bwrpasol ar gyfer pobl ifanc, datblygu gwefan ar gyfer plant a phobl ifanc a chryfhau'r defnydd a wneir o siopau gwybodaeth lleol.
- Cydweithio gyda darparwyr Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid i ymestyn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc yn lleol i dderbyn cydnabyddiaeth ac achrediad ffurfiol am eu gwaith a hefyd er mwyn datblygu ac ehangu eu sgiliau sylfaenol.
- Cydweithio gyda darparwyr Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid i sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer arfarnu a chofnodi cyrhaeddiad a chynnydd pobl ifanc yn gyson.
- Trefnu hyfforddiant i ddarparwyr Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ar sut i gynllunio a gwerthuso sesiynau a gweithgareddau i bobl ifanc.

7.8.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd gan bobl ifanc Gwynedd fynediad lawn at ystod eang o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid lleol o safon a fydd yn eu herio a'u galluogi i anelu at ragoriaeth.

- Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi cwblhau'r gwaith o fapio a phroffilio Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn llawn ac wedi defnyddio'r wybodaeth er mwyn cydlynu'r ddarpariaeth yn effeithiol.

- Bydd gan bobl ifanc fwy o fynediad at wybodaeth ynglŷn â'u hawliau a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn lleol.

- Bydd gan bobl ifanc fwy o fynediad at gyfleoedd ar gyfer derbyn cydnabyddiaeth ac achrediad ffurfiol am eu gwaith ac er mwyn datblygu ac ehangu eu sgiliau sylfaenol.

- Bydd trefniadau cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer arfarnu a chofnodi cyrhaeddiad a chynnydd pobl ifanc ac ar gyfer cynllunio a gwerthuso sesiynau a gweithgareddau i bobl ifanc.

7.8.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd y Grŵp Cynllunio a Datblygu - Pobl Ifanc yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

7.9 Gwaharddiadau

7.9.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Caiff plant a phobl ifanc eu gwahardd o'r ysgol a sefydliadau addysgol eraill am wahanol resymau ac am gyfnodau gwahanol. Yn wir, mae gan waharddiadau oblygiadau sylweddol i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn addysgol, yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn economaidd yn arbennig felly os yw'r plant, pobl ifanc a theuluoedd hynny eisoes yn byw mewn amgylchiadau heriol. Mae lefelau gwaharddiadau parhaol yng Ngwynedd wedi bod ar gynnydd ac yn parhau'n uchel mewn cymhariaeth ag ardaloedd tebyg. Er bod arwyddion o welliant, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol o'r angen i wneud gwaith pellach i gysoni arferion ar draws ysgolion, sefydlu trefniadau i leihau ac atal gwaharddiadau parhaol ac i ail-integreiddio disgyblion sydd wedi eu gwahardd i'r brif ffrwd yn fuan. O ganlyniad, mae gwaharddiadau wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **canolig**.

7.9.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod polisïau a gweithrediad ysgolion yn arwain at leihad mewn niferoedd gwaharddiadau parhaol a hyd gyfnodau gwahardd penodol.

7.9.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Sefydlu Protocol Hyrwyddo Ymddygiad Da ar gyfer Ysgolion Cynradd er mwyn gwella systemau hyrwyddo gwell ymddygiad ac i leihau gwaharddiadau.

- Monitro gweithrediad y Protocol Hyrwyddo Ymddygiad Da ymysg Ysgolion Uwchradd er mwyn gwella systemau hyrwyddo ymddygiad da ac i leihau gwaharddiadau parhaol ar draws pob Ysgol Uwchradd.
- Sicrhau fod ysgolion yn hunan arfarnu eu strategaethau cynhwysiad yn effeithiol ac yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion Cylchlythyr 47/2006 Llywodraeth y Cynulliad – 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion'.
- Datblygu'r Gweithgor Cynhwysiad Uwchradd er mwyn rhannu arfer da ymysg ysgolion a datblygu prosiectau cynhwysol ymhellach.
- Defnyddio Cynllun PASS ('Pupil Attitudes to Self and School') i fonitro agweddau disgyblion tuag at ysgol er mwyn adnabod disgyblion sydd mewn perygl o ymneilltuo o addysg yn y dyfodol.
- Defnyddio egwyddorion 'Ffocysu ar Ddatrysiad' o fewn sefydliadau addysgol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal disgyblion i ymgymryd yn llawn.
- Sicrhau cydweithio rhwng y Gwasanaeth Lles a Chynhwysiad, y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad a'r Gwasanaeth Seicolegol Addysgol ac asiantaethau tu allan i'r Awdurdod Addysg (e.e. Gwasanaethau Arbenigol Plant, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Cymdeithasol) i gydgordio gwybodaeth er mwyn annog ysgolion i edrych ar strategaethau eang i ymateb i anghenion disgyblion.
- Darparu hyfforddiant ar lefel Awdurdod, ysgol gyfan neu i grwpiau o fewn ysgolion ar egwyddorion neu strategaethau i ymateb i atal anawsterau ymddygiadol.
- Cynnig hyfforddiant i staff bugeiliol o fewn ysgolion ar ddatblygiad emosiynol plant a phobl ifanc ac ar sut i greu ysgol sy'n fwy emosiynol ddeallus.
- Uwchsgilio staff penodol mewn sgiliau cwnsela, rheoli dicter, hunan ddelwedd ac iechyd emosiynol yn gyffredinol.
- Parhau gyda'r hyfforddiant mewn strategaethau rheoli ymddygiad i roi sgiliau i staff ysgolion mewn perthynas ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad trwy Hyfforddiant Rob Long i athrawon Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 a Hyfforddiant Webster Stratton i athrawon Cyfnod Allweddol 1 a rhieni.
- Annog ysgolion uwchradd i fabwysiadu'r 'Fframwaith Ymyriad' fel rhan o strategaeth i ddwysau lefelau cynhaliaeth a chefnogaeth i staff a dysgwyr.
- Rhannu arfer da o ran defnydd effeithiol o Anogwyr Dysgu
- Ymestyn darpariaeth Gweithwyr Ieuenctid o fewn rhai o Ysgolion Uwchradd y Sir.
- Sicrhau bod ysgolion yn llunio Cynlluniau Cefnogaeth Fugeiliol ar gyfer disgyblion sydd mewn peryg o gael eu gwahardd, a'u bod yn weithredol.
- Hyrwyddo gwelliant yn safon y Cynlluniau Cefnogaeth Fugeiliol fel eu bod yn ddogfennau defnyddiol gweithredol.
- Sicrhau bod gan Swyddog Cyswllt Addysg y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid rôl fwy gweithredol o ran llunio Cynllun Cefnogaeth Fugeiliol i droseddwyr a'i gefnogi.
- Sicrhau fod adroddiad byr o farn Swyddogion Lles a Chynhwysiad Addysg ar gael i baneli disgyblu yn dilyn gwaharddiad parhaol disgybl.
- Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o lwybrau cyfeirio aml-asiantaethol ar gyfer cefnogi ymddygiad cyn gwahardd.
- Hybu cysondeb o ran y penderfyniad o wahardd disgybl trwy rannu profiadau ysgolion.

- Sefydlu Unedau Cylchdro ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 fydd yn estyn darpariaeth therapiwtig i ddisgyblion â phroblemau emosiynol neu ymddygiadol dwys am gyfnodau dros dro.
- Hyrwyddo cwricwlwm sy'n rhoi sylw i elfennau emosiynol a chymdeithasol o fewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.
- Ymgynghori gyda Phenaethiaid Ysgolion Cynradd ym Meirionnydd ac yn Nwyfor ynglŷn â sefydlu darpariaeth debyg i hwnnw yng Nghanolfan Brynffynnon.
- Sefydlu Grwpiau Magwraeth effeithiol i weithio gyda niferoedd bach o ddisgyblion a'u teuluoedd o fewn ysgolion.

7.9.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd llai o blant a phobl ifanc yn cael eu gwahardd yn barhaol o ysgolion Gwynedd a bydd hyd cyfnodau gwahardd penodol hefyd wedi lleihau, a ni fydd unrhyw blentyn neu berson ifanc yn cael ei wahardd yn answyddogol.

- Bydd Polisïau Hyrwyddo Ymddygiad Da ysgolion yn cydymffurfio yn llawn gyda pholisïau cynhwysiad Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Gwynedd a Chylchlythyr 47/2006.

- Bydd cefnogaeth lawn ar gael i ysgolion i finiogi a chryfhau eu harferion, diwylliant a gweithdrefnau cynhwysol ymhellach a hynny yng nghyd-destun hyrwyddo ymddygiad da.

- Bydd ysgolion yn gwneud defnydd priodol o ystod o weithdrefnau a systemau ar gyfer cynnal a chefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

- Bydd cysondeb ar draws Gwynedd yn ymateb yr ysgolion i achosion o wahardd.

- Bydd staff ysgolion a rhieni wedi derbyn hyfforddiant a chymorth ar wella ymddygiad plant a phobl ifanc.

- Bydd mwy o eglurder mewn perthynas â llwybrau cyfeirio at addysg tu allan i ysgol ar gyfer y disgyblion mwyaf heriol.

- Bydd systemau cefnogi effeithiol ar gael i gynnal disgyblion mewn addysg prif ffrwd heb angen eu gwahardd.

7.9.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

7.10 Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

7.10.1 Mae nifer o safonau o fewn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth sydd yn berthnasol i'r chwe maes blaenoriaeth a fydd yn derbyn sylw gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymateb i'r blaenoriaethau hyn:

Maes Blaenoriaeth	Safon(au)
Plant a Phobl Ifanc dan Amgylchiadau Arbennig	2.34, 2.49, 2.54, 2.60 3.11 5.28 6.6, 6.7, 6.12 7.7
Anghenion Dysgu Arbennig ac Anableddau	2.49, 2.56 4.6, 4.11 5.2, 5.6, 5.7, 5.8, 5.11, 5.13, 5.15, 5.22, 5.23, 5.24, 5.28, 5.33
Hygyrchedd a Chyfleusterau Dysgu	6.7, 6.12
Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau	2.36, 6.7
Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid	2.44, 2.45, 3.11, 5.33, 6.8
Gwaharddiadau	-

8. Amcan Strategol 3 – Iechyd, Rhyddid o Gamdriniaeth ac Ecsploetiaeth

8.1 Cyflwyniad

8.1.1 Amcan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod plant a phobl ifanc Gwynedd yn mwynhau'r iechyd gorau posibl a'u bod yn rhydd o erledigaeth, camdriniaeth ac ecsploetiaeth.

8.1.2 Yn wir, mae gan bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yr hawl i fyw bywyd iach ac i fwynhau iechyd corfforol a lles emosiynol da. Mae ganddynt hefyd yr hawl i gael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, troseddau, damweiniau, trais a bwlio.

8.1.3 Y nod, felly, yw hyrwyddo iechyd a lles ar gyfer holl blant a phobl ifanc Gwynedd a sicrhau gwasanaethau hygyrch ac amserol i'r rheiny sy'n dioddef o salwch, anabledd neu broblemau eraill. Rhaid cwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc mewn modd priodol sy'n sensitif i oed a rhaid hefyd diogelu plant a phobl ifanc yn llawn rhag camdriniaeth, esgeulustod ac ecsploetiaeth. Mae iechyd ac amddiffyniad plant a phobl ifanc yn gwneud cyfraniad pwysig i'w cyfleoedd i gyfranogi a mwynhau bywyd tra maent yn ifanc ac am weddill eu hoes.

8.2 Blaenoriaethau Cenedlaethol

8.2.1 Mae hybu iechyd gwell, wrth leihau anghydraddoldebau, yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth y Cynulliad.

8.2.2 Amlygir blaenoriaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas ag iechyd, lles a diogelwch plant a phobl ifanc mewn nifer o ddogfennau strategol, ac mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys:

- Sicrhau fod gan blant a phobl ifanc yr hawl i fyw bywyd iach a diogel gyda'u teuluoedd o fewn eu cymunedau.
- Annog plant a phobl ifanc i ddewis dulliau iach o fyw a'u cefnogi i fwynhau iechyd corfforol, meddyliol a maethol da.
- Sicrhau fod gan blant a phobl ifanc fynediad lawn at wasanaethau iechyd cymunedol ac arbenigol fel bo'r angen.
- Diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc gan sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n llawn rhag niwed arwyddocaol.

8.3 Blaenoriaethau Lleol

8.3.1 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi adnabod deg maes blaenoriaeth ar gyfer yr amcan strategol yma, sef **Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol**; **Cam-drin, Esgeulustod ac Ecsploetiaeth**; **Gofalwyr Ifanc**; **Gordewdra**; **Diet / Maeth**; **Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol**; **Ysmygu**; **Alcohol**; **Cam-drin Sylweddau**, a **Bwlio**.

8.4 Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol

8.4.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Gall problemau ac anhwylderau iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc ddifetha bywydau'r rhai y mae'n effeithio arnynt a difetha ansawdd bywyd y rhai o'u cwmpas. Mae cymdeithas yn talu pris uchel iawn o ran tarfu cymdeithasol, methiant addysgol, afiechyd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chost ariannol sylweddol am fethu ag ymdrin â'r problemau hyn yn effeithiol. Er nad oes data cadarn ar gael ar faint problemau ac anhwylderau iechyd meddwl ymysg plant a phobl ifanc, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol o'r angen i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn mwynhau iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol. O ganlyniad, mae iechyd meddwl a lles emosiynol wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

8.4.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod gan blant a phobl ifanc fynediad lawn at wasanaethau sy'n cefnogi eu lles emosiynol ac sy'n eu galluogi i fwynhau iechyd meddwl da.

8.4.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu a gweithredu protocolau a threfniadau cydweithio rhwng pob haen o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng athrawon, nyrsys ysgol, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol â'r gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol a sicrhau fod plant a phobl ifanc yn derbyn y gwasanaeth a'r gefnogaeth briodol.
- Sicrhau adnoddau ar gyfer datblygu'r gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol a gwella mynediad plant a phobl ifanc at wasanaethau iechyd meddwl dwys.
- Sicrhau adnoddau ar gyfer datblygu gwasanaeth newydd wedi ei leoli yn Ysbyty Gwynedd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn niweidio eu hunain.
- Datblygu a sefydlu Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion Uwchradd yng Ngwynedd.

8.4.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd plant a phobl ifanc gydag anhwylderau iechyd meddwl yn cael gwell mynediad at wasanaethau effeithiol, priodol, cydlynus ac amserol sy'n ymateb yn llawn i'w anghenion.

- Bydd gan weithwyr proffesiynol gwell ddealltwriaeth o anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc ac o'u rôl o safbwynt cefnogi a hyrwyddo eu lles emosiynol ac iechyd meddwl da.

- Bydd gwasanaeth newydd yn ei le ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn niweidio eu hunain.

8.4.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Grŵp Gwella'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.5 Cam-drin, Esgeulustod ac Ecsploetiaeth

8.5.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn dioddef o ran eu datblygiad corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol. Gall y gamdriniaeth fod yn gorfforol, emosiynol, rhywiol neu esgeulustod neu yn unrhyw gyfuniad o'r rhain ac fe gam-drinnir plant a phobl ifanc gan rieni, gofalwyr eraill, brodyr, chwiorydd neu eraill. Mae camdriniaeth, esgeulustod ac ecsploetiaeth yn broblem gymdeithasol ddifrifol sy'n effeithio ar lawer o blant a phobl ifanc ac adlewyrchir hynny yn y niferoedd o blant a phobl ifanc sydd yn cael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu yng ngofalaeth yr Awdurdod Lleol. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gwbl ymroddedig i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu'n llawn rhag camdriniaeth, esgeulustod ac ecsploetiaeth. O ganlyniad, mae cam-drin, esgeulustod ac ecsploetiaeth wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

8.5.2 Beth yw'r nod?

Mae gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ddau nod mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth, sef:

- Sicrhau fod plant a phobl ifanc sydd yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu hecsploetio yn cael eu gwarchod a'u diogelu yn llawn.

- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd camdriniaeth, esgeulustod ac ecsploetiaeth yn digwydd o fewn cymunedau a theuluoedd yng Ngwynedd.

8.5.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Cyhoeddi a gweithredu Strategaeth Ymyrraeth Gynnar.
- Cynllunio a darparu cyrsiau a chefnogaeth rhiantu sydd wedi eu targedu at y plant, pobl ifanc a theuluoedd mwyaf bregus.
- Gwella perfformiad asiantaethau gydag asesiadau craidd a grwpiau craidd.
- Lleihau'r niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli'n all-sirol drwy gynyddu'r niferoedd o leoliadau gofal sydd ar gael yn lleol.

8.5.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd llai o blant a phobl ifanc yn dod i ofal oherwydd niwed arwyddocaol.

- Bydd rhieni yn derbyn mwy o gymorth a chefnogaeth i fagu eu plant yn effeithiol.

8.5.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.6 Gofalwyr Ifanc

8.6.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae gofalwyr ifanc fel rheol yn gofalu am aelod arall o'r teulu. Mae llawer o ofalwyr ifanc yn gyfrifol am gwblhau nifer o dasgau yn y cartref yn ogystal â darparu gofal nyrsio, gofal personol a chynhaliaeth emosiynol i'r rhai yn eu gofal. Mae llawer o ofalwyr ifanc, o ganlyniad, o dan anfantais o ran eu haddysg a'u datblygiad cymdeithasol a phersonol ac ychydig sydd â'r amser a'r ynni i gael hwyl a mwynhau bywyd. Gall iechyd corfforol ac emosiynol gofalwyr ifanc ddioddef o ganlyniad i bwysau a chyfrifoldeb gofalu a phryderu'n gyson am y dyfodol. Ni wyddir yn union faint o ofalwyr ifanc sydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Ond, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol o'r angen i sefydlu trefniadau effeithiol er mwyn adnabod gofalwyr ifanc, asesu eu hanghenion a darparu cefnogaeth a chymorth priodol iddynt a'r rhai yn eu gofal. O ganlyniad, mae gofalwyr ifanc wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

8.6.2 Beth yw'r nod?

Mae gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ddau nod mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth, sef:

- Adnabod gofalwyr ifanc, asesu eu hanghenion yn effeithiol a sicrhau ymateb priodol i'r anghenion hynny.

- Lleihau'r niferoedd o blant a phobl ifanc sydd yn darparu gofal drwy sicrhau fod gwasanaethau effeithiol mewn lle i gefnogi'r rhai y gofelir amdanynt.

8.6.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod anghenion gofalwyr ifanc ac asesu eu hanghenion.
- Sicrhau bod gofalwyr ifanc yn parhau i dderbyn sylw llawn o fewn Strategaeth Gofalwyr Gwynedd.
- Cynnal hyfforddiant i staff perthnasol ym mhob maes er mwyn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau i adnabod gofalwyr ifanc a'u cyfeirio ymlaen i'r gwasanaethau priodol.
- Cryfhau ac ymestyn y gefnogaeth a'r gynhaliaeth a roddir i ofalwyr ifanc.

8.6.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer adnabod gofalwyr ifanc ac asesu eu hanghenion.

- Bydd gan ofalwyr ifanc fwy o fynediad at gyfleoedd a gwasanaethau sydd yn eu cefnogi a'u galluogi i ddatblygu i'w llawn potensial.

- Bydd llai o blant a phobl ifanc yn darparu gofal oherwydd bydd trefniadau gwell mewn lle i gefnogi'r rhai sydd angen gofal.

8.6.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Fforwm Gofalwyr Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.7 Gordewdra

8.7.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae gordewdra yn cynyddu'n gyson ac yn cael ei ddisgrifio fel epidemig byd-eang. Diet gwael a ffordd o fyw segur yw prif achosion gordewdra ymysg plant a phobl ifanc ac mae'n peryglu eu hiechyd corfforol ac emosiynol, yn effeithio ar eu hansawdd bywyd ac yn cyfyngu ar eu cyfranogiad mewn cymdeithasol. Yr oedd 30% o'r plant a phobl ifanc a holwyd fel rhan o 'Ein Llais Ni, Eich Llais Chi' yn teimlo eu bod yn pwyso mwy nag y dylent. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen buddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni er mwyn atal gordewdra a chynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n ordew neu'n gyn-ordew i golli a rheoli pwysau yn effeithiol. O ganlyniad, mae gordewdra wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

8.7.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw lleihau'r cynnydd mewn gordewdra ymysg plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

8.7.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth leol ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra ymysg plant a phobl ifanc a'u teuluoedd ac ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i reoli eu pwysau yn effeithiol.

8.7.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra ymysg plant a phobl ifanc wedi ei gyhoeddi ac ar waith yn effeithiol.

8.7.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Cynghrair Her Iechyd Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.8 Diet / Maeth

8.8.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae arferion bwyta yn datblygu'n gynnar ac mae diet gwael a sefydlir yn gynnar yn ystod plentyndod yn parhau drwy gydol bywyd unigolyn ac yn gallu arwain at broblemau iechyd yn nes ymlaen. Mae diet amrywiol, cytbwys a phriodol yn ystod plentyndod a llencyndod sy'n darparu digon o egni a chyflenwad digonol o faetholion hanfodol yn allweddol ar gyfer sicrhau iechyd da ac osgoi problemau megis pydredd deintyddol, anaemia, gohiriad twf cyfansoddol, gorbwysedd a gordewdra. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen buddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni sydd yn hyrwyddo a sefydlu arferion bwyta da ymysg plant a phobl ifanc. O ganlyniad, mae diet / maeth wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

8.8.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw cynyddu'r nifer o blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n bwyta diet cytbwys, iach a maethlon.

8.8.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth bwyd a maeth lleol sy'n gyson gyda blaenoriaethau Strategaeth Blas am Oes Llywodraeth y Cynulliad.

8.8.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd strategaeth ar gyfer annog plant, pobl ifanc a theuluoedd i fwyta diet cytbwys, iach a maethlon yn weithredol.

- Bydd plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn fwy ymwybodol am fanteision bwyta diet cytbwys, iach a maethlon.

- Bydd gan bobl ifanc fwy o gyfleoedd i ddilyn cyrsiau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau coginio.

- Bydd cynnydd yn y nifer o gynlluniau bwyd lleol.

- Bydd sefydliadau sydd yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd (megis ysgolion a chanolfannau hamdden) yn cynnig mwy o ddewisiadau bwyd iach a maethlon a llai o fyrbrydau a diodydd sydd llawn siwgr, halen a braster.

- Bydd mwy o gefnogaeth ar gael i famau sydd yn dewis bwydo o'r fron.

- Bydd cynlluniau a rhaglenni ar waith ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc i reoli eu pwysau yn effeithiol.

8.8.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Cynghrair Her Iechyd Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.9 Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol

8.9.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae'r rhan fwyaf o Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol yn cynyddu, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Mae rhai, megis Syffilis a HIV, yn fygythiad i fywyd ac mae'r rhan fwyaf o'r rhai eraill yn gallu cael canlyniadau iechyd difrifol. Nododd 64% o'r bobl ifanc rhwng 17 a 25 oed a holwyd fel rhan o 'Ein Llais Ni, Eich Llais Chi' nad oeddynt yn gwybod beth yw Haint a Drosglwyddir yn Rhywiol ac ymddengys fod lefelau rhai Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol, megis Chlamydia, yng Ngwynedd ymysg yr uchel yng Nghymru. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen buddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni ar gyfer addysgu plant a phobl ifanc ynglŷn â Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol yn ogystal â rhoi gwasanaethau hygyrch ac effeithiol mewn lle ar gyfer y rhai sy'n cael eu heffeithio gan Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol. O ganlyniad, mae Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

8.9.2 Beth yw'r nod?

Mae gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ddau nod mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth, sef:

- Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'r angen i ymarfer rhyw ddiogel a'u mynediad at wybodaeth a gwasanaethau penodol yn ymwneud â Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol.

- Lleihau'r nifer o bobl ifanc sy'n dioddef heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

8.9.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Sefydlu Grŵp Tasg aml-asiantaethol ar gyfer datblygu cynlluniau a rhaglenni ar gyfer codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc am faterion iechyd rhyw.

8.9.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd plant a phobl ifanc yn fwy ymwybodol o beryglon peidio ag ymarfer rhyw ddiogel.

- Bydd mwy o bobl ifanc yn ymarfer rhyw ddiogel ac o ganlyniad yn dioddef llai o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

- Bydd gan bobl ifanc fwy o fynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn ymwneud â Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol.

8.9.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Cynghrair Her Iechyd Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.10 Ysmygu

8.10.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae'n ffaith gydnabyddedig mai ysmygu yw'r achos unigol mwyaf o glefyd a marwolaeth gynnar yng Nghymru y gellid ei osgoi. Mae'r nifer o bobl ifanc sy'n dechrau ysmygu ac yna'n parhau gyda'r arfer yn uchel iawn yng Nghymru. Nododd 28% o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed a holwyd fel rhan o 'Ein Llais Ni, Eich Llais Chi' eu bod yn ysmygu, ond yr oedd y ganran yn llawer iawn uwch ymysg grwpiau bregus o bobl ifanc (50%). Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen rhoi trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer atal plant a phobl ifanc rhag ysmygu, eu hannog a'u cynorthwyo i roi'r gorau iddi a'u galluogi i aros yn ddi-fwg. O ganlyniad, mae ysmygu wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

8.10.2 Beth yw'r nod?

Mae gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ddau nod mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth, sef:

- Atal plant a phobl ifanc rhag ysmygu.

- Annog a chynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n ysmygu i roi'r gorau iddi unwaith ac am byth.

8.10.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o beryglon ysmygu.
- Gwella mynediad plant a phobl ifanc sy'n ysmygu at gefnogaeth i roi'r gorau i ysmygu unwaith ac am byth.
- Sicrhau fod rheoliadau mewn perthynas â hysbysebu a gwerthu sigarennau a'r gwaharddiad ysmygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

8.10.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd plant a phobl ifanc yn fwy ymwybodol o beryglon ysmygu.

- Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn dewis peidio ysmygu.

- Bydd mwy o blant a phobl ifanc sy'n ysmygu wedi dewis rhoi'r gorau iddi unwaith ac am byth.

8.10.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Cynghrair Her Iechyd Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.11 Alcohol

8.11.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae defnydd alcohol ymhlith plant a phobl ifanc yn cynyddu'n gyflymach na defnydd unrhyw gyffur arall yn y Deyrnas Unedig ac fe gysylltir goryfed mewn pyliau ac yfed yn drwm gyda thrais, damweiniau, hunanladdiad, anafiadau, trosedd, damweiniau, triwantiaeth a gwaharddiadau o'r ysgol. Nododd 42% o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed eu bod yn yfed alcohol ambell dro, 20% yn gyson a 3% bob dydd fel rhan o arolwg 'Ein Llais Ni, Eich Llais Chi', ond yr oedd y canrannau yn llawer iawn uwch ymysg grwpiau bregus o bobl ifanc. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen buddsoddi mewn rhaglenni a chynlluniau sydd yn rhwystro plant a phobl ifanc rhag yfed yn anghyfreithlon ac yn anghyfrifol. O ganlyniad, mae alcohol wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

8.11.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw cynorthwyo plant a phobl ifanc i wrthsefyll, lleihau neu ohirio yfed alcohol drwy eu haddysgu a rhoi gwybod iddynt am y difrod y gall goryfed alcohol ei wneud i'w hiechyd, eu teuluoedd ac i'r gymuned ehangach.

8.11.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth camddefnyddio sylweddau lleol sy'n gyson gyda blaenoriaethau Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth y Cynulliad yn arbennig o safbwynt hyrwyddo gwaith ataliol, cefnogi camddefnyddwyr yn effeithiol, cefnogi teuluoedd a mynd i'r afael â darpariaeth.

8.11.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd plant a phobl ifanc yn fwy ymwybodol o beryglon yfed a goryfed alcohol.

- Bydd gwasanaethau effeithiol mewn lle ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n dioddef o broblemau alcohol.

- Bydd trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer gwarchod a diogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn sgil problemau alcohol ymysg aelod arall o'r teulu.

8.11.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Cynghrair Her Iechyd Gwynedd a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.12 Cam-drin Sylweddau

8.12.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Y cynharaf mewn bywyd mae unigolyn yn dechrau cymryd cyffuriau, y mwyaf yw'r tebygrwydd y byddant yn datblygu problemau iechyd difrifol dros amser o'i gymharu gydag ymwrthodwyr cynnar. Yn yr un modd, mae cysylltiadau cryf rhwng problemau gyda chyffuriau â pherfformiad academaidd gwael, triwantiaeth, trais a throseddu. Dangosodd arolwg o 2,000 o bobl ifanc yng Ngwynedd yn 2005 fod defnydd cyffuriau yn cynyddu gydag oed ac erbyn 17 oed yr oedd mwy na 40% wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon a gydag oed 13 - 14 oedd yr oed mwyaf cyffredin i gael eu cynnig gyntaf. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen buddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni sydd yn atal ac yn rhwystro plant a phobl ifanc rhag cam-drin sylweddau. O ganlyniad, mae cam-drin sylweddau wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

8.12.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw cynorthwyo plant a phobl ifanc i wrthsefyll, lleihau neu ohirio defnyddio sylweddau drwy eu haddysgu a rhoi gwybod iddynt am y difrod y gall camddefnyddio sylweddau ei wneud i'w hiechyd, eu teuluoedd ac i'r gymuned ehangach.

8.12.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth camddefnyddio sylweddau lleol sy'n gyson gyda blaenoriaethau Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth y Cynulliad yn arbennig o safbwynt hyrwyddo gwaith ataliol, cefnogi camddefnyddwyr yn effeithiol, cefnogi teuluoedd a mynd i'r afael â darpariaeth.

8.12.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd plant a phobl ifanc yn fwy ymwybodol o beryglon defnyddio a chamddefnyddio sylweddau.

- Bydd gwasanaethau effeithiol mewn lle ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n dioddef o broblemau camddefnyddio sylweddau.

- Bydd trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer gwarchod a diogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn sgil problemau camddefnyddio sylweddau ymysg aelod arall o'r teulu.

8.12.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Grŵp Comisiynu Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.13 Bwlio

8.13.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Gall bwlio gael effaith ddifrifol ar iechyd emosiynol a chorfforol plant a phobl ifanc, yn ogystal ag effeithio ar berfformiad ysgol a bywyd yn y cartref. Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu bwlio yn colli hunan-barch a hunanhyder, yn tynnu allan o sefyllfaoedd cymdeithasol, yn methu canolbwyntio, yn dioddef o ffobia ysgol ac, mewn rhai achosion, yn ceisio lladd eu hunain. Yr oedd 51% o'r plant a phobl ifanc (7 i 16 oed) a holwyd fel rhan o 'Ein Llais Ni, Eich Llais Chi' yn adnabod rhywun sy'n cael ei fwlio. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen rhoi strategaethau mewn lle ar gyfer atal a lleihau bwlio ymysg plant a phobl ifanc, cefnogi'r rhai sydd wedi dioddef bwlio a chynorthwyo'r rhai sydd yn eu bwlio er mwyn eu rhwystro rhag bwlio eto. O ganlyniad, mae bwlio wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

8.13.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw lleihau'r achosion o fwlio ymysg plant a phobl ifanc o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

8.13.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Cynnig arweiniad a chefnogaeth i bob ysgol a sefydliad ieuenctid o ran llunio a chynnal Polisi Gwrth-fwlio effeithiol, penodol a gweithredol.
- Monitro systemau gwrth-fwlio ysgolion a sefydliadau ieuenctid trwy ymweliad ag Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a Sefydliadau Ieuenctid gan gynnwys polisïau a rhannu arfer da a llunio crynodeb o'r hyn a ddarganfuwyd.
- Llunio Polisi Gwrth-fwlio Sirol gan ystyried data o ymweliadau ag ysgolion a sefydliadau ieuenctid.
- Datblygu, hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth am sut y dylai plant a phobl ifanc ymateb i achosion fwlio.
- Cefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu gallu i ymateb i fwlio trwy ddarparu gwasanaethau ymgynghorol trwy'r Gwasanaeth Lles a Chynhwysiad Addysg a'r Gwasanaeth Seicolegol.
- Monitro lefel y bwlio o fewn y Sir, trwy sicrhau bod systemau monitro a chofnodi bwlio ysgolion unigol a natur y bwlio yn bwydo bas data canolig.
- Cydweithio gyda chynllun 'Ysgolion Iach', CYNNAL ac asiantaethau elusennol plant megis NSPCC a ChildLine o ran hyrwyddo gweithgareddau sy'n lleihau achosion o fwlio ymysg plant a phobl ifanc o fewn ysgolion a'r gymuned ehangach.
- Ffurfio gweithgor aml asiantaeth gyda seibrfwlio fel rhan o'i briff o fewn yr Awdurdod.

8.13.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd ysgolion a sefydliadau ieuenctid wedi sefydlu, cynnal ac adolygu polisïau gwrth-fwlio effeithiol.
- Bydd ymwybyddiaeth ysgolion a sefydliadau ieuenctid o gyffredinolrwydd a natur bwlio wedi cynyddu.
- Bydd ymwybyddiaeth athrawon, llywodraethwyr a staff ategol ysgolion o natur bwlio wedi cynyddu a bydd ac ymatebion priodol i fwlio wedi eu sefydlu yn gadarn o fewn pob ysgol.
- Bydd llai o achosion o fwlio ymysg plant a phobl ifanc mewn ysgolion, sefydliadau a chyfleusterau ieuenctid.
- Bydd cydweithio agosach rhwng yr heddlu ac ysgolion a sefydliadau ieuenctid o ran ymateb i fwlio 'technolegol'.
- Bydd llai o achosion o hiliaeth o fewn ysgolion a sefydliadau ieuenctid.

8.13.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Gwynedd, Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

8.14 Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

8.14.1 Mae nifer o safonau o fewn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth sydd yn berthnasol i'r deg maes blaenoriaeth a fydd yn derbyn sylw gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymateb i'r blaenoriaethau hyn:

Maes Blaenoriaeth	Safon(au)
Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol	2.8, 2.18, 2.34, 2.37, 2.39, 2.45, 2.49, 2.54, 2.60, 2.61 3.13, 3.18 4.5, 4.6, 4.11 5.11, 5.24
Cam-drin, Esgeulustod ac Ecsploetiaeth	6.5
Gofalwyr Ifanc	-
Gordewdra	2.33, 2.40, 2.41, 2.42, 7.12
Diet / Maeth	2.33, 2.40, 2.41, 2.42, 7.12
Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol	2.36, 2.46
Ysmygu	2.46, 3.12, 4.6
Alcohol	2.46, 3.12, 4.6
Cam-drin Sylweddau	2.46, 2.61, 3.12, 4.6
Bwlio	2.45

9. Amcan Strategol 4 – Chwarae, Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant

9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Amcan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwarae, hamdden a chwaraeon.

9.1.2 Yn wir, mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i gymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau egnïol, creadigol, diwylliannol, cymdeithasol a chymunedol.

9.1.3 Y nod, felly, yw sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn cael mynediad llawn at ystod eang o weithgareddau egnïol, creadigol, diwylliannol, cymdeithasol a chymunedol a fydd yn eu galluogi i wella eu hiechyd corfforol ac emosiynol, i ddatblygu ac ennill sgiliau personol a chymdeithasol ac i ddeall a gwerthfawrogi'r byd o'u cwmpas.

9.2 Blaenoriaethau Cenedlaethol

9.2.1 Mae hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau chwarae, chwaraeon, hamdden a diwylliant yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

9.2.2 O safbwynt chwarae, mae Polisi Chwarae (2002) a Chynllun Gweithredu Polisi Chwarae (2006) cysylltiedig Llywodraeth y Cynulliad yn pwysleisio'r angen am ddarpariaethau chwarae lleol o ansawdd uchel sy'n briodol, yn gyffrous ac sy'n cynnig her i blant.

9.2.3 O safbwynt hamdden a chwaraeon, mae Dringo'n Uwch, sef strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn amlinellu'r camau i'w cymryd i annog pob plentyn a pherson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac egnïol yn rheolaidd.

9.2.4 Mae hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y celfyddydau ac mewn gweithgareddau diwylliannol hefyd yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â chynyddu'r defnydd a wneir gan blant a phobl ifanc o lyfrgelloedd lleol.

9.3 Blaenoriaethau Lleol

9.3.1 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi adnabod pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer yr amcan strategol yma, sef **Chwarae**; **Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Mewn Ysgolion**; **Cyfleoedd Hamdden a Chwaraeon**, a **Chyfleoedd Diwylliannol a Chelfyddydol**.

9.4 Chwarae

9.4.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Er mai prin yw'r data ar effaith peidio â chwarae, y mae canfyddiadau'r astudiaethau sydd yn bodoli yn achos pryder. Amddifadedd chwarae yw'r enw a roddir ar y syniad y gall peidio â chwarae amddifadu plant o brofiadau sydd yn hanfodol i'w datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Gall amddifadu plant o gyfleoedd chwarae arwain at broblemau ymddygiad, anhwylderau meddyliol a sgiliau cymdeithasol gwael. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn gwbl ymroddedig i sicrhau fod plant, gan gynnwys plant gydag anableddau, yn cael mynediad at gyfleoedd chwarae ffurfiol ac anffurfiol o ansawdd uchel sy'n briodol, yn ddiogel, yn gyffrous ac sy'n eu cynorthwyo i ddysgu, i fwynhau ac i ddatblygu'n llawn yn gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. O ganlyniad, mae chwarae wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

9.4.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod plant yn cael mynediad at gyfleoedd chwarae o ansawdd uchel sy'n briodol, yn ddiogel, yn gyffrous ac sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu'n llawn yn gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol.

9.4.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth chwarae leol sy'n gyson gyda blaenoriaethau Polisi Chwarae Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

9.4.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd Strategaeth Chwarae glir a chadarn yn ei le ar gyfer hyrwyddo a chefnogi mynediad plant a theuluoedd at gyfleoedd chwarae yn lleol.

9.4.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

- Bydd y Grŵp Cynllunio a Datblygu - Tlodi Plant yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

9.5 Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Mewn Ysgolion

9.5.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae chwaraeon ac addysg gorfforol yn datblygu medr a hyder corfforol disgyblion a'u gallu i'w defnyddio i wneud nifer o weithgareddau. Mae chwaraeon ac addysg gorfforol yn rhoi cyfle i ddisgyblion fod yn greadigol, yn gystadleuol ac i wynebu gwahanol fathau o her fel unigolion ac mewn grwpiau a thimau. Mae'n hybu agweddau cadarnhaol tuag at ddulliau egnïol ac iach o fwy ac yn galluogi disgyblion i ddysgu sut i gynllunio, gwerthuso a gwella eu perfformiad. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol, felly, o'r angen i sicrhau fod pob disgybl yn derbyn 2 awr yr wythnos o chwaraeon ac addysg gorfforol yn ysgolion Gwynedd.
O ganlyniad, mae chwaraeon ac addysg gorfforol mewn ysgolion wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

9.5.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau bod holl ddisgyblion ysgol yng Ngwynedd yn cael mynediad i leiafswm o ddwy awr yr wythnos o Addysg Gorfforol o fewn y cwricwlwm.

9.5.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Ymateb i ofynion newydd Cwricwlwm 2008 a chynnig rhaglenni diddorol a heriol i bob disgybl drwy ganolbwyntio ar iechyd, ffitrwydd a lles; gweithgareddau antur yn yr awyr agored; gweithgareddau creadigol, a gweithgareddau cystadleuol.
- Sicrhau bod holl ysgolion Gwynedd yn rhan o'r Cynllun PESS (Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol) a bod athrawon cynradd yn hyderus i gyflwyno holl ofynion Cwricwlwm 2008.
- Datblygu rhaglenni allgyrsiol sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n adlewyrchu Cwricwlwm 2008 ac yn ymateb i ddiddordebau holl ddisgyblion Gwynedd.
- Gwella adnoddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon ysgolion Gwynedd, yn enwedig yn yr ysgolion cynradd.
- Ceisio rhoi Swyddog Pobl Ifanc Egnïol llawn amser ym mhob dalgylch yng Ngwynedd.

9.5.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd Swyddogion Pobl Ifanc Egnïol wedi eu hapwyntio ac yn gweithio rhan amser ym mhob dalgylch yng Ngwynedd.

- Bydd Cwricwlwm Addysg Gorfforol 2008 wedi ei sefydlu'n gadarn yn holl ysgolion Gwynedd.

- Bydd canran uchel iawn o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn cynnig lleiafswm o ddwy sesiwn Addysg Gorfforol yn y cwricwlwm mewn wythnos i bob disgybl.

9.5.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc mewn cydweithrediad â Chyngor Chwaraeon Cymru, Tîm Pobl Ifanc Egnïol Gwynedd, Cynnal ac Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd.

9.6 Cyfleoedd Hamdden a Chwaraeon

9.6.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae sicrhau fod gan blant a phobl ifanc fynediad lawn at gyfleoedd hamdden a chwaraeon yn allweddol ar gyfer eu datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae manteision plentyndod egnïol yn trosi i fywyd fel oedolyn gan fod plentyn egnïol yn fwy tebygol o fod yn oedolyn egnïol. Nododd y mwyafrif o blant a phobl ifanc a holwyd fel rhan o 'Ein Llais Ni, Eich Llais' eu bod yn gwneud ymarfer corff yn wythnosol gyda 3% yn gwneud llai na hanner awr, 18% yn gwneud awr, 18% yn gwneud dwy awr, 15% yn gwneud tair awr a 42% yn gwneud pedwar awr neu ragor o wythnos. Ond, y mae grwpiau o blant a phobl ifanc bregus yn llai tebygol o wneud ymarfer corff yn wythnosol ac maent hefyd yn llai tebygol o fod yn aelod o glwb chwaraeon y tu allan i'r ysgol. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol, felly, bod angen ehangu mynediad pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd at gyfleoedd hamdden a chwaraeon, gan gynnwys gweithgareddau awyr agored. O ganlyniad, mae cyfleoedd hamdden a chwaraeon wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

9.6.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod gan blant a phobl ifanc fynediad llawn at gyfleoedd hamdden a chwaraeon sy'n cefnogi eu lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol.

9.6.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Rhoi ystyriaeth lawn i ganfyddiadau a chanlyniadau'r cynlluniau ar gyfer ad-drefnu addysg gynradd ac uwchradd mewn perthynas ag isadeiledd adnoddau hamdden, chwaraeon a gweithgarwch corffol yn y Sir.
- Cynnal adolygiad o'r fformiwla dyrannu adnoddau i Ysgolion Cynradd o safbwynt costau trafnidiaeth a mynediad i gyfleusterau hamdden y Cyngor er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i blant a phobl ifanc y Sir.
- Ymgymryd â dadansoddiad manwl o strwythur staffio'r Gwasanaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Egnïol er mwyn sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol gan y gweithlu a bod y sgiliau hynny yn addas ar gyfer ymateb i'r gofynion newydd.
- Sefydlu is-grŵp o'r Rhwydwaith Gweithgareddau Egnïol ar gyfer elfennau cymunedol plant a phobl ifanc (hynny yw, tu allan i oriau ysgol).

9.6.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd gan blant a phobl ifanc fwy o fynediad at gyfleoedd hamdden a chwaraeon o ansawdd.

- Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau egnïol.

9.6.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Cyngor Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc gyda chydweithrediad y Gwasanaeth Ysgolion a chefnogaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

9.7 Cyfleoedd Diwylliannol a Chelfyddydol

9.7.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae gwerth cynhenid i ddiwylliant a'r celfyddydau. Mae diwylliant a'r celfyddydau yn cyfrannu tuag at wella ansawdd bywyd plant a phobl ifanc, rhoi'r cyfle iddynt ddysgu sgiliau newydd, i wella eu gwybodaeth ac i archwilio'u teimladau. Mae diwylliant a'r celfyddydau hefyd yn annog bywiogrwydd creadigol ac yn codi balchder a hyder ymysg plant a phobl ifanc o'u cymunedau a'u hardaloedd. Nododd y plant a phobl ifanc a holwyd fel rhan o 'Ein Llais Ni, Eich Llais Chi' eu bod yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol gan gynnwys ymweld â'r theatr, amgueddfeydd, eisteddfodau a llyfrgelloedd. Ond, y mae grwpiau o blant a phobl ifanc bregus yn llai tebygol o fod yn rhan o weithgareddau o'r fath. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol, felly, bod angen sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol sydd ar gael iddynt. O ganlyniad, mae cyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **canolig**.

9.7.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad llawn at ddewis eang o wahanol fathau o gyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol o'r safon uchaf posibl.

9.7.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Parhau i ddarparu gwasanaethau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi yn y celfyddydau drwy waith a chynlluniau Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd a Môn, Fforwm Celfyddydau Gwynedd a gwaith Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd (e.e. Criw Celf a'r Cynllun Celfyddyd Mewn Iechyd).

9.7.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd gan blant a phobl ifanc fwy o fynediad at gyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol o ansawdd.

- Bydd mwy o blant a phobl ifanc yn cyfranogi mewn cyfleoedd diwylliannol a chelfyddydol o ansawdd.

9.7.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Cyngor Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

9.8 Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

9.8.1 Mae nifer o safonau o fewn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth sydd yn berthnasol i'r pedwar maes blaenoriaeth a fydd yn derbyn sylw gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymateb i'r blaenoriaethau hyn:

Maes Blaenoriaeth	Safon(au)
Chwarae	2.33, 2.38, 2.43, 2.44 5.2 7.2, 7.16
Chwaraeon ac A.G. Mewn Ysgolion	2.33, 2.38, 2.43 5.2
Cyfleoedd Hamdden a Chwaraeon	2.38, 2.43, 2.44 5.2
Cyfleoedd Diwylliannol a Chelfyddydol	2.44

10. Amcan Strategol 5 – Parch

10.1 Cyflwyniad

10.1.1 Amcan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael clust i wrando, yn cael eu trin â pharch ac yn arddel eu hil, eu hiaith a'u hunaniaeth ddiwylliannol.

10.1.2 Yn wir, mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i leisio'u barn ar wahanol faterion sy'n effeithio ar eu bywydau a'r byd o'u cwmpas ac i gael eu trin â pharch gan oedolion. Mae ganddynt hefyd yr hawl i gymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau cymunedol.

10.1.3 Mae'n bwysig fod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod fod ganddynt hawl i fynegi barn ac i gymryd rhan yn y penderfyniadau, y cynllunio a'r arolygu sy'n ymwneud â gweithgareddau a gwasanaethau allai effeithio arnynt. Gwaith comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau, felly, yw hyrwyddo hyn trwy ei gwneud yn hawdd i blant a phobl ifanc leisio'u barn a sicrhau fod eu sylwadau yn cael sylw dyledus ganddynt. Rhaid defnyddio nifer o wahanol ddulliau a threfniadau (gan gynnwys trefniadau eiriolaeth a chwyno) i alluogi plant a phobl ifanc i fynegi'r farn honno yn effeithiol, gan ystyried oed a gallu, fel bod barn pawb yn cael ei chlywed yn gytbwys a chyfartal. Yn yr un modd, mae'n bwysig fod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod fod ganddynt hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad eu cymunedau a'u hardaloedd yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol.

10.2 Blaenoriaethau Cenedlaethol

10.2.1 Gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad yw y dylai Cymru fod yn lle ble caiff plant a phobl ifanc eu trin fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned gyda'u lleisiau'n cael eu clywed a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. O ganlyniad, mae Llywodraeth y Cynulliad yn mynnu bod trefniadau effeithiol yn cael eu sefydlu'n lleol ac yn genedlaethol er mwyn caniatáu plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar y penderfyniadau, y cynllunio a'r arolygu sy'n effeithio arnynt.

10.2.2 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ymrwymedig i sicrhau fod gan blant a phobl ifanc, yn arbennig y rhai mwyaf bregus, fynediad lawn at wasanaethau eiriolaeth annibynnol o ansawdd a threfniadau cwyno effeithiol sy'n eu cefnogi i ddatrys eu cwynion a'u cynorthwyo i sicrhau ymateb i'w pryderon.

10.3 Blaenoriaethau Lleol

10.3.1 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi adnabod dau faes blaenoriaeth ar gyfer yr amcan strategol yma, sef **Cyfranogi ac Eiriolaeth** a **Gwirfoddoli**.

10.4 Cyfranogi ac Eiriolaeth

10.4.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae'n bwysig fod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod fod ganddynt hawl i fynegi barn ac i gymryd rhan yn y penderfyniadau, y cynllunio a'r arolygu sy'n ymwneud â gweithgareddau a gwasanaethau allai effeithio arnynt. Gall rymuso llais plant a phobl ifanc drwy drefniadau cyfranogi ac eiriolaeth effeithiol arwain at nifer o fanteision gan gynnwys gwella eu hagwedd tuag at yr ysgol, eu presenoldeb yn yr ysgol, eu perfformiad academaidd a'u hymddygiad yn yr ysgol; gall annog plant a phobl ifanc i osgoi cyffuriau ac alcohol, troseddu ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol; a gall hefyd alluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau personol, cymdeithasol a chymunedol a chynyddu eu hunanhyder a hunan-barch. Er bod trefniadau mewn lle yng Ngwynedd ar hyn o bryd i rymuso llais plant a phobl ifanc, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen datblygu ac ehangu'r trefniadau hynny ymhellach er mwyn sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i leisio'u barn yn effeithiol. O ganlyniad, mae cyfranogi ac eiriolaeth wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

10.4.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i gymryd rhan a chael eu clywed yn y drefn arferol o gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc Gwynedd heddiw ac ar gyfer pobl Gwynedd i'r dyfodol.

10.4.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Sicrhau ymrwymiad llawn gwasanaethau, cyrff ac asiantaethau i'r Strategaeth Cyfranogi.
- Datblygu a chyhoeddi pecyn adnoddau i'w ddefnyddio gan wasanaethau, cyrff ac asiantaethau er mwyn eu galluogi i hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc yn effeithiol.
- Gosod trefn ar gyfer sicrhau mewnbwn plant a phobl ifanc i'r gwaith o ddatblygu ac adolygu'r Strategaeth Gyfranogi a'i Gynllun Gweithredu i'r dyfodol.
- Sefydlu strwythur ar gyfer casglu a choladu sylwadau gan blant a phobl ifanc, cynnig adborth i blant a phobl ifanc a chynnwys plant a phobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd.
- Ar y cyd â Bwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd, sicrhau fod trefniadau ymarferol yn eu lle ar gyfer gwarchod a diogelu plant a phobl ifanc pan fyddent yn cyfranogi.
- Datblygu dangosyddion ar gyfer mesur ansawdd, gwerth ac effeithiolrwydd cyfranogiad a chynhwysiad plant a phobl ifanc.
- Sefydlu trefn aml-asiantaethol ar gyfer delio gydag ac ymateb i gwynion gan blant a phobl ifanc.
- Sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth lleol yn cael eu comisiynu'n effeithiol yn unol â chyfarwyddyd a chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

10.4.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd gan blant a phobl ifanc fwy o ymwybyddiaeth o'u hawl i gyfranogi a lleisio barn.
- Bydd gan blant a phobl ifanc fynediad at fwy o gyfleoedd cyfranogi ystyrlon a phriodol.
- Bydd mwy o wasanaethau, cyrff ac asiantaethau wedi ymrwymo'i hunain i'r Strategaeth Gyfranogi.
- Bydd trefn aml-asiantaethol clir mewn lle ar gyfer delio yn effeithiol gyda chwynion gan blant a phobl ifanc.
- Bydd gan fwy o blant a phobl ifanc fynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol.

10.4.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd y Grŵp Cynllunio a Datblygu - Cyfranogi a Gwybodaeth yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

10.5 Gwirfoddoli

10.5.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae pobl ifanc yn cael budd personol o wirfoddoli ac yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau, ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol a chynyddu eu gallu i gael eu cyflogi. Nododd 37% o'r bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed a holwyd fel rhan o 'Ein Llais Ni, Eich Llais Chi' eu bod yn gwneud gwaith gwirfoddol o fewn eu cymuned. Ond, yr oedd y ganran yn llai ymysg grwpiau bregus o bobl ifanc (27%). Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn ymwybodol o'r angen i annog rhagor o bobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli o fewn eu cymunedau ac o fewn y Sir. O ganlyniad, mae gwirfoddoli wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **canolig**.

10.5.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw annog, galluogi a chefnogi pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli o fewn eu cymunedau ac o fewn y Sir.

10.5.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Hyrwyddo gwirfoddoli a hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli ymysg pobl ifanc.
- Ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc wirfoddoli, gan gynnwys grwpiau o bobl ifanc anodd eu cyrraedd.
- Cefnogi a chynorthwyo gwasanaethau, cyrff ac asiantaethau i oresgyn y rhwystrau i wirfoddoli.

10.5.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd gan bobl ifanc fwy o fynediad at gyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd dysgu anffurfiol.
- Bydd mwy o bobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli ac yn derbyn cydnabyddiaeth am eu gwaith gwirfoddol.
- Bydd pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'u cyfraniad i'w cymunedau a'r byd o'u cwmpas.

10.5.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd ym Mantell Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

10.6 Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

10.6.1 Mae nifer o safonau o fewn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth sydd yn berthnasol i'r ddau faes blaenoriaeth a fydd yn derbyn sylw gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymateb i'r blaenoriaethau hyn:

Maes Blaenoriaeth	Safon(au)
Cyfranogi ac Eiriolaeth	2.1, 2.2, 2.3, 2.5, 2.6, 2.7, 2.11, 2.55 5.1, 5.34 6.2
Gwirfoddoli	-

11. Amcan Strategol 6 – Cartref a Chymuned Ddiogel

11.1 Cyflwyniad

11.1.1 Amcan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol.

11.1.2 Yn wir, mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i fyw mewn cartrefi addas ac i gael eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod, troseddau, damweiniau, trais a bwlio.

11.1.3 Mae'r cartref a'r gymuned yn gyd-destun pwysig i fywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae cyflwr ac addasrwydd tai, trosedd ac anrhefn, yr amgylchedd a rhwydweithiau cymunedol a chymdeithasol i gyd yn cael effaith ar les plant a phobl ifanc. Y nod, felly, yw sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel rhag niwed a'u bod yn gallu byw mewn cartrefi addas yn ogystal ag mewn cymunedau diogel sydd yn cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol.

11.2 Blaenoriaethau Cenedlaethol

11.2.1 Mae sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc o fewn y cartref a'r gymuned yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad.

11.2.2 Mae gan Lywodraeth y Cynulliad nifer o gynlluniau a rhaglenni mewn lle sydd wedi eu hanelu at gefnogi lles corfforol ac emosiynol plant a phobl ifanc o fewn y cartref a'r gymuned, gan gynnwys cynlluniau a rhaglenni ar gyfer:

- Lleihau'r niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n dioddef oherwydd trais yn y cartref.
- Lleihau'r niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n dioddef oherwydd aflonyddwch hiliol.
- Lleihau'r niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n troseddu, ail-droseddu, ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu sy'n dioddef troseddau yn eu herbyn.
- Lleihau'r niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n cael damweiniau ac anafiadau.
- Lleihau digartrefedd, y defnydd a wneir o lety dros dro a gwella safon a chyflwr tai.
- Lleihau llygredd amgylcheddol a chynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'r amgylchedd a'r byd o'u cwmpas.

11.3 Blaenoriaethau Lleol

11.3.1 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi adnabod pum maes blaenoriaeth ar gyfer yr amcan strategol yma, sef **Digartrefedd**, **Cyflwr Tai**, **Trais yn y Cartref**, **Plant a Phobl Ifanc Mewn Cyswllt â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** a **Datblygu Cynaliadwy ac Ysgolion**.

11.4 Digartrefedd

11.4.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae digartrefedd yn golygu llawer mwy na dim ond bod heb lety. Mae cartref yn cynnig diogelwch, sicrwydd, preifatrwydd ac amgylchedd iach sy'n sylfaen i alluogi rhywun i ffynnu. Nid oes gan bobl sy'n ddigartref amgylchedd diogel nac ychwaith yr amodau hynny sydd yn caniatáu iddynt fwynhau iechyd da a lles emosiynol cadarnhaol. Gall digartrefedd gael effaith niweidiol ar blant a phobl ifanc drwy achosi a gwaethygu problemau iechyd corfforol a meddyliol, tarfu ar eu haddysg ac arwain at straen ar yr aelwyd. Mae'r niferoedd o bobl ifanc sy'n ddigartref yn ogystal â theuluoedd gyda phlant dibynnol wedi bod ar gynnydd yng Ngwynedd. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn ymwybodol fod angen atal digartrefedd ymysg pobl ifanc a theuluoedd yn ogystal â rhoi cymorth a chefnogaeth effeithiol a phriodol i'r rhai sydd eisoes yn ddigartref. O ganlyniad, mae digartrefedd wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **allweddol**.

11.4.2 Beth yw'r nod?

Mae gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ddau nod mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth, sef:

- Lleihau'r nifer o blant a phobl ifanc sydd yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn uniongyrchol ac fel aelod o deulu.

- Ymdrin yn bositif ag anghenion tai ac iechyd y plant a phobl ifanc hynny sydd yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref trwy ddarparu llety dros dro addas hyd nes y bydd eu hanghenion wedi eu diwallu'n llawn.

11.4.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ddigartrefedd a strategaeth lletya pobl ifanc er mwyn ymateb yn llawn i anghenion lletya plant, pobl ifanc a theuluoedd ac i gynyddu'r dewis fydd ar gael iddynt fel rhan o strategaeth hirdymor Llywodraeth y Cynulliad.

11.4.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd Strategaeth Ddigartrefedd glir a chadarn yn ei le ar gyfer ymateb yn llawn ac yn briodol i anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd digartref.

- Bydd Strategaeth Lletya clir a chadarn mewn yn ei le ar gyfer ymateb yn llawn ac yn briodol i anghenion lletya pobl ifanc.

- Bydd lleihad yn y nifer o blant, pobl ifanc a theuluoedd digartref.

11.4.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Fforwm Digartref Partneriaeth Tai Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

11.5 Cyflwr Tai

11.5.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Cysylltir tai gwael gyda lefelau uwch o salwch cyfyngus tymor-hir, clefydau resbiradol a heintus, problemau seicolegol, afiechydon yn gyffredinol a chynnydd mewn marwolaethau. O safbwynt plant a phobl ifanc, dengys ymchwil fod cyswllt rhwng cartrefi gyda lleithder neu lwydni ag amlder asthma neu broblemau resbiradol mewn plant a phobl ifanc. Gall tai gwael gael effaith niweidiol ar les seicolegol plant a phobl ifanc hefyd yn ogystal ag amharu ar eu haddysg a'u gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon, cymdeithasol a chyfranogi. Mae tua 9% o stoc tai Gwynedd yn anaddas o'i gymharu â chyfartaleddau Gogledd Cymru a Chymru o 6.6% a 8.5% a hynny'n bennaf oherwydd bod 56.5% o'r eiddo wedi ei godi cyn 1919. Er nad oes data cadarn ar gael ynglŷn â'r niferoedd o blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd yn byw mewn cartrefi anaddas, mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol fod angen sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu magu mewn cartrefi addas sydd yn cefnogi eu datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol yn llawn. O ganlyniad, mae cyflwr tai wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

11.5.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau nad oes raid i blant a phobl ifanc na'u teuluoedd fyw mewn llety sydd o gyflwr gwael ac sydd yn effeithio ar eu hiechyd a lles.

11.5.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Sicrhau fod mwy o adnoddau yn cael eu buddsoddi yn y stoc tai leol er mwyn codi ei safon yn y Sectorau Cyhoeddus a Phreifat a sicrhau bod cyngor parod i'w gael ar y modd o ymateb i safonau.

11.5.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd llai o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn byw mewn llety sydd o gyflwr gwael.

- Bydd llai o blant a phobl ifanc yn datblygu problemau iechyd corffol a meddyliol sy'n gysylltiedig â byw mewn cartrefi anaddas.

11.5.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Partneriaeth Tai Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

11.6 Trais yn y Cartref

11.6.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Dengys ymchwil mai merched sydd yn dioddef trais yn y cartref yn bennaf a'i fod yn cael ei gyflawni gan ddynion. Gan mai mamau yw llawer o'r merched hyn, mae'n anorfod y bydd y cam-drin yn cael effaith ar blant a phobl ifanc o fewn y cartref, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig o ystyried y ffaith fod plant a phobl ifanc yn yr un ystafell neu'r ystafell drws nesaf mewn 90% o'r achosion o drais. Mae trais yn y cartref yn gallu effeithio ar blant a phobl ifanc yn gorfforol, yn feddyliol, yn addysgiadol ac yn gymdeithasol a bydd rhai yn achosi ac yn dioddef trais yn y cartref fel oedolion yn sgil eu profiadau cynnar mewn bywyd. Erys lefelau trais yn y cartref yn uchel yng Ngwynedd yn arbennig felly mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn ymwybodol fod angen mynd i'r afael yn effeithiol â thrais yn y cartref er mwyn diogelu lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc. O ganlyniad, mae trais yn y cartref wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

11.6.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw cefnogi a chynorthwyo plant a phobl ifanc sydd yn cael eu heffeithio gan drais yn y cartref.

11.6.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth sydd yn mynd i'r afael yn effeithiol â thrais yn y cartref ac sydd yn hyrwyddo a diogelu lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc.

11.6.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd Strategaeth Trais yn y Cartref clir a chadarn yn ei le sydd yn ymateb yn llawn ac yn briodol i anghenion plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan drais yn y cartref.

11.6.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

11.7 Plant a Phobl Ifanc Mewn Cysllwt â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

11.7.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae plant a phobl ifanc yn troseddu ac yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol am sawl rheswm. Ond, mae rhai plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o droseddu ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol nag eraill. Mae'r plant a phobl ifanc sydd yn dueddol o gyflawni troseddau yn fwy tebygol o fod wedi profi trafferthion yn y cartref; o driwantio o'r ysgol, tangyflawni'n addysgol a / neu gael eu gwahardd o'r ysgol; o ddefnyddio a / neu gam-drin cyffuriau neu alcohol, a chymysgu gyda phlant a phobl ifanc eraill sydd yn troseddu ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Er bod y niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n dod i gyswllt â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf wedi gostwng, mae'r niferoedd sydd yn ail-droseddu wedi cynyddu. Erys y nifer o blant a phobl ifanc sydd yn cael eu dal mewn Canolfannau Cadw yn uchel iawn. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol, felly, fod angen buddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni sydd yn atal plant a phobl ifanc rhag troseddu, ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac ail-droseddu a hefyd er mwyn lleihau'r niferoedd sydd yn cael eu hanfon i Ganolfannau Cadw. O ganlyniad, mae troseddwyr ifanc a phlant a phobl ifanc mewn carchar wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

11.7.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw atal a lleihau troseddu ac ail-droseddu gan blant a phobl ifanc a lleihau'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n cael eu hanfon i Ganolfannau Cadw.

11.7.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Sicrhau fod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn yn ymateb yn llawn i gynlluniau a deddfwriaeth newydd ym maes cyfiawnder ieuenctid.
- Sicrhau trefn gyson ar gyfer rheoli risg a sicrhau fod y paneli risg yn cael eu cynnal yn chwarterol.
- Codi proffil ac ystod y gwaith sydd yn cael ei gyflawni gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid drwy'r Sir.
- Datblygu sgiliau staff o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb yn effeithiol i gynlluniau a deddfwriaeth newydd ac i anghenion y plant a phobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth.
- Parhau i ddatblygu trefniadau ataliol ac ymyrraeth gynnar y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.
- Datblygu ymhellach gwaith cyfiawnder adferol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a sicrhau mewnbwn dioddefwyr i'r broses.
- Datblygu dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sy'n gyson gyda dangosyddion perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Hyrwyddo anghenion ieithyddol plant a phobl ifanc o fewn y system gyfiawnder, yn enwedig plant a phobl ifanc Cymraeg.

- Hyrwyddo anghenion addysgol, iechyd a thai plant a phobl ifanc o fewn y system gyfiawnder.

11.7.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd llai o blant a phobl ifanc yn troseddu, yn ail-droseddu ac yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

- Bydd llai o blant a phobl ifanc yn cael eu hanfon a'u dal mewn Canolfannau Cadw.

11.7.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

11.8 Datblygu Cynaliadwy ac Ysgolion

11.8.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae datblygiad cynaliadwy yn fater o ddarganfod ffyrdd o wella ansawdd bywydau pobl heb ddifrodi'r amgylchedd na chreu problemau i'r dyfodol na'u trosglwyddo i rannau eraill o'r byd. Dengys bod dysgu a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy mewn ysgolion yn cyfrannu at godi cyrhaeddiad, gwella ymddygiad ac arbed arian yn ogystal â chreu cyfleoedd ar gyfer dwyn i mewn staff, rhieni a'r gymuned ehangach i fywyd yr ysgol. Yn ystod 2005/06, cafodd 45 ysgol yng Ngwynedd Wobr Ysgolion Gwyrdd (sef cynllun sydd yn ceisio annog ysgolion i fabwysiadu polisïau a gweithgareddau fydd yn amddiffyn yr amgylchedd fel rhan o drefn ddyddiol yr ysgol) ac mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gadarn o blaid sicrhau fod pob ysgol yng Ngwynedd yn dod yn rhan o'r cynllun hwn. O ganlyniad, mae datblygiad cynaliadwy ac ysgolion wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **canolig**.

11.8.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ymwybodol o egwyddorion datblygiad cynaliadwy a sut y gallant hwy gyfrannu'n effeithiol tuag at ymdrechion i greu Gwynedd a byd mwy cynaliadwy.

11.8.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Sicrhau fod o leiaf 65% o ysgolion y Sir yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Gwyrdd ac yn derbyn achrediad am eu gwaith.
- Annog Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch i hyrwyddo egwyddorion datblygiad cynaliadwy drwy eu gweithgareddau academaidd a'u trefniadau rheoli ystadau.
- Datblygu arweiniad clir i rieni, gofalwyr a theuluoedd ar sut i hyrwyddo a gweithredu'n ymarferol ar egwyddorion datblygiad cynaliadwy o fewn y cartref.

11.8.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn fwy ymwybodol o egwyddorion datblygiad cynaliadwy a'u cyfraniad hwy at y broses o greu cymuned gynaliadwy.

- Bydd mwy o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Gwyrdd ac wedi derbyn achrediad am eu gwaith.

- Bydd Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yn cyfrannu'n fwy at ymdrechion i hyrwyddo a gweithredu'n ymarferol ar egwyddorion datblygiad cynaliadwy.

11.8.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Cyfadran Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

11.9 Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

11.9.1 Mae nifer o safonau o fewn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth sydd yn berthnasol i'r pum maes blaenoriaeth a fydd yn derbyn sylw gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymateb i'r blaenoriaethau hyn:

Maes Blaenoriaeth	Safon(au)
Digartrefedd	6.8, 6.9
Cyflwr Tai	2.38, 2.39 5.19, 5.20 6.8
Trais yn y Cartref	-
Plant a Phobl Ifanc Mewn Cyswllt â'r Gwasanaeth Ieuenctid Troseddol	6.8
Datblygu Cynaliadwy ac Ysgolion	-

12. Amcan Strategol 7 – Rhyddid Rhag Tlodi

12.1 Cyflwyniad

12.1.1 Amcan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn rhydd o anfantais oherwydd tlodi ariannol.

12.1.2 Yn wir, mae gan blant a phobl ifanc Gwynedd yr hawl i gael mynediad llawn at wasanaethau, cyfleoedd a chyfleusterau er gwaethaf amgylchiadau ariannol a materol y teulu.

12.1.3 Mae effeithiau tlodi ar blant a phobl ifanc yn amlygu eu hunain mewn sawl ffordd. Mae plant a phobl ifanc sy'n dioddef o dlodi ac amddifadedd yn fwy tebygol o fyw mewn cymunedau tlawd a thai gwael; yn dioddef o iechyd corfforol a meddyliol gwael; ag anawsterau dysgu ac ymddygiad; yn tangyflawni yn yr ysgol ac yn cael eu gwahardd o'r ysgol; meddu ar ddim neu fawr ddim o adnoddau addysgol gartref; â mynediad cyfyngedig i weithgareddau all-gwricwlaidd, cymdeithasol, hamdden a diwylliannol; bod yn fwy agored i straen yn y cartref, profi gwarth ac unigrwydd a theimlo cywilydd am eu hamgylchiadau personol; yn beichiogi'n ifanc; â sgiliau a dyheadau is, ac yn cael tâl is, yn ddi-waith ac yn dibynnu ar fudd-daliadau lles fel oedolion. Mae plant a phobl ifanc sydd yn profi tlodi hefyd yn fwy tebygol o gael canlyniadau gwael a dioddef o dlodi yn nes ymlaen mewn bywyd a chael plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi. Mae cyswllt agos felly rhwng tlodi a phob agwedd arall o fywydau plant a phobl ifanc. Y nod, felly, yw sicrhau fod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn mwynhau lles materol cadarnhaol sydd yn eu galluogi i gael mynediad llawn at ddarpariaethau, cyfleoedd a gwasanaethau fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu personoliaeth, doniau, gallu meddyliol a chorfforol a chyflawni eu potensial.

12.2 Blaenoriaethau Cenedlaethol

12.2.1 Mae dileu tlodi ymhlith plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth y Cynulliad.

12.2.2 Amlygir gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yn y ddogfen strategol 'Dyfodol Teg i'n Plant'. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â'r tair prif agwedd o dlodi plant, sef:

- Tlodi Incwm – gwella mynediad at gyflogaeth; sicrhau cynhwysedd ariannol a lefelau incwm digonol; cynnig grantiau ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, ac adolygu mesurau treth a budd-daliadau.

- Tlodi Cyfranogiad – ysgogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol; gwrando ar lais plant a phobl ifanc, a mynd i'r afael â cham-wahaniaethu a bwlio.

- Tlodi Gwasanaeth – sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael yn effeithiol â materion tlodi plant.

12.3 Blaenoriaethau Lleol

12.3.1 Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc wedi adnabod tri maes blaenoriaeth ar gyfer yr amcan strategol yma, sef **Tlodi**, **Tlodi Tanwydd** ac **Amddifadedd**.

12.4 Tlodi

12.4.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae plant a phobl ifanc sydd yn byw mewn tlodi o dan anfantais yn emosiynol, yn addysgol, yn gymdeithasol ac yn economaidd ac yn wynebu mynediad cyfyng at gyfleoedd a gwasanaethau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu llawn potensial. Ond, ymddengys fod rhai plant a phobl ifanc mewn mwy o risg o dlodi nac eraill gan gynnwys plant rhieni sengl; plant sy'n tyfu i fyny mewn teuluoedd lle mae tri neu fwy o blant; plant o rai teuluoedd o leiafrifoedd ethnig; plant sy'n tyfu i fyny mewn aelwydydd lle nad oes neb mewn cyflogaeth llawn amser, a phlant mewn aelwydydd gyda phlentyn neu oedolyn anabl. Amcangyfrifwyd bod tua 25% o blant a phobl ifanc sy'n byw yng Ngogledd Orllewin Cymru yn byw mewn tlodi. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol, felly, fod angen datblygu polisïau, cynlluniau, gwasanaethau a rhaglenni bydd yn fodd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fwynhau lles economaidd llawn. O ganlyniad, mae tlodi wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

12.4.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau for plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn rhydd o anfantais oherwydd tlodi ariannol.

12.4.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Datblygu cynllun peilot tlodi plant drwy gydweithio gydag Ysgol Uwchradd benodol i gyflwyno addysg a hyfforddiant ar lythrennedd ariannol i bobl ifanc yn ogystal â sefydlu 'Cynllun Cynilo' mewn partneriaeth ag Undeb Credyd Y Llechen Cyf.
- Datblygu a sefydlu fframwaith ar gyfer profi polisïau, cynlluniau a strategaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at ymdrechion lleol i ddileu tlodi ymysg plant a phobl ifanc a theuluoedd.
- Datblygu cyfres o ddangosyddion ar gyfer mesur tlodi ymysg plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Ngwynedd.

12.4.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd lleihad yn y nifer o blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

12.4.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd y Grŵp Cynllunio a Datblygu - Tlodi Plant yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

12.5 Tlodi Tanwydd

12.5.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Agwedd arall o dlodi sy'n effeithio'n negyddol ar les plant, pobl ifanc a theuluoedd yw tlodi tanwydd. Pennir bod teulu'n dioddef tlodi tanwydd os bydd angen iddynt wario mwy na 10% o'u hincwm net ar danwydd i gynnal trefn wresogi ddigonol. Gall byw mewn cartref oer gael effaith negyddol ar addysg ac iechyd plant a phobl ifanc drwy effeithio ar batrymau cwsg, cynyddu amser gwella o salwch, cynyddu gorlenwi ac ar lefelau canolbwyntio wrth geisio gwneud gwaith cartref. Amcangyfrifwyd bod cyfran y cartrefi sy'n dioddef tlodi tanwydd yng Ngwynedd yn amrywio o 37.9% i 40%. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol, felly, fod angen buddsoddi mewn cynlluniau a rhaglenni sydd yn galluogi teuluoedd i wresogi eu cartrefi yn effeithiol ac yn effeithlon. O ganlyniad, mae tlodi tanwydd wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

12.5.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod teuluoedd, yn arbennig teuluoedd gyda phlant ifanc a theuluoedd un rhiant, yn derbyn cymorth a chefnogaeth i gynhesu'r cartref i safon dderbyniol am bris rhesymol.

12.5.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Cynyddu ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant ar gynhesrwydd fforddiadwy.
- Gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai.
- Cynorthwyo teuluoedd i gynyddu eu hincwm a gostwng eu costau tanwydd.
- Hyrwyddo'r Cynllun 'Yma i Helpu' mewn cymunedau penodol ar draws Wynedd.

12.5.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd llai o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn byw mewn cartrefi oer.

- Bydd llai o deuluoedd yn gorfod gwario mwy na 10% o'u hincwm net ar danwydd i gynnal trefn wresogi ddigonol o fewn y cartref.

12.5.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd y Grŵp Llywio - Cynhesrwydd Fforddiadwy yng Ngwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

12.6 Amddifadedd

12.6.1 Pam fod hwn yn faes blaenoriaeth?

Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn ardaloedd difreintiedig yn llawer mwy tebygol na phlant a phobl ifanc mewn ardaloedd llai difreintiedig o wneud dewisiadau gwael mewn bywyd, o dorri'r gyfraith, o fethu yn yr ysgol, o ddatblygu problemau iechyd meddwl, o fod yn ddigartref ac o feichiogi'n ifanc iawn. Yn ôl y 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru' (2005), mae dwy ardal yng Ngwynedd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru sef Peblig yng Nghaernarfon a Marchog ym Mangor. Mae'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymwybodol, felly, fod angen rhoi cynlluniau a rhaglenni mewn lle sydd yn sicrhau fod plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn cael mynediad at gyfleoedd a fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu potensial yn llawn. O ganlyniad, mae amddifadedd wedi ei adnabod fel maes blaenoriaeth **uchel**.

12.6.2 Beth yw'r nod?

Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau fod gan blant, pobl ifanc a theuluoedd yr adnoddau cyffredinol sydd eu hangen arnynt i fodloni a diwallu eu hanghenion.

12.6.3 Beth yw'r prif gynlluniau ar gyfer gwireddu'r nod?

- Dadansoddi prosiectau a rhaglenni presennol i adnabod ymarfer da a llwyddiant.
- Adnabod mesurau clir ar gyfer lledaenu twf a chyfleoedd i gymunedau o angen.
- Proffilio gwasanaethau, rhaglenni a chynlluniau ymyrraeth a datblygu cynllun gweithredu.
- Sefydlu trefn ar gyfer cyd-gynllunio a chyd-dargedu gwasanaethau i gymunedau o angen.
- Gweithredu Rhaglen Cymunedau'n Nesaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Targedu a chynorthwyo teuluoedd sydd yn cynnwys unigolion sy'n economaidd anweithredol.

12.6.4 Beth fydd wedi ei gyflawni erbyn 2011?

- Bydd rhaglen o gynlluniau gweithredu ymyrraeth glir a chadarn mewn lle ar gyfer torri'r cylch amddifadedd.

- Bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael mwy o fynediad at gyfleoedd i gyfrannu at y broses o adfywio eu cymunedau.

12.6.5 Pa gorff neu gyrff fydd yn arwain y maes blaenoriaeth?

Bydd Partneriaeth Economaidd Gwynedd yn arwain ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

12.7 Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

12.7.1 Mae nifer o safonau o fewn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth sydd yn berthnasol i'r tri maes blaenoriaeth a fydd yn derbyn sylw gan y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc fel rhan o'i ymateb i'r blaenoriaethau hyn:

Maes Blaenoriaeth	Safon(au)
Tlodi	2.39
Tlodi Tanwydd	2.39
Amddifadedd	2.39

13. Datblygu'r Gweithlu Plant a Phobl Ifanc

13.1 Cyflwyniad

13.1.1 Pwrpas yr adran yma yw amlygu'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi strategaeth y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer cefnogi a datblygu'r gweithlu plant a phobl ifanc ar draws pob sector yng Ngwynedd.

13.1.2 Yn wir, ni ellir cyflawni'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc a darparu cyfleoedd a gwasanaethau o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc heb fuddsoddi'n llawn mewn datblygu a chefnogi gweithlu dwyieithog sydd yn gymwys, yn brofiadol, yn broffesiynol ac yn hyderus.

13.1.3 Bydd Strategaeth Gweithlu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd, felly, yn nodi cynlluniau'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer datblygu, cefnogi a chynnal un gweithlu ar gyfer y sector plant a phobl ifanc yng Ngwynedd i gynnwys gweithlu'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat.

13.2 Blaenoriaethau Cenedlaethol

13.2.1 Bydd y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer y gweithlu plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu hamlygu yn y Strategaeth Gweithlu Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Cymru sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y Rhwydwaith Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc. Disgwylir y bydd y blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Recriwtio a chadw mwy o'r math cywir o staff o fewn y gweithlu a datblygu llwybrau gyrfa clir ar gyfer staff o fewn y gweithlu.

- Datblygu'n barhaus sgiliau, gwybodaeth a galluoedd craidd staff a sicrhau bod ymarfer o'r ansawdd uchaf posibl ymysg gwirfoddolwyr, gofalwyr, darparwyr hunangyflogedig a staff cyflogedig.

- Trawsnewid ac ail-fodelu'r gweithlu er mwyn cryfhau trefniadau gweithio'n amlddisgyblaethol ac yn aml-asiantaethol.

- Cryfhau sgiliau arweinyddol, rheolaethol a goruchwylio.

- Datblygu set o ddata craidd er mwyn darparu gwybodaeth am y gweithlu plant a phobl ifanc ar draws pob sector.

- Datblygu'r Fframwaith Asesu Cyffredin er mwyn galluogi'r rhai sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd i asesu eu hanghenion yn effeithiol.

- Sicrhau bod staff sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi derbyn gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'u bod yn gweithredu'n unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

13.3 Datblygu'r Strategaeth Gweithlu Plant a Phobl Ifanc

13.3.1 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn adeiladu ar waith arweiniol yn y maes gan y Bartneriaeth Strategol Gweithlu Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru a Phartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Gwynedd, ac yn manteisio ar brofiad cynllunio gweithlu manwl sydd eisoes yn digwydd o fewn cyrff ac asiantaethau sydd yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Drwy'r Bartneriaeth Datblygu'r Gweithlu lleol, bydd modd i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc hefyd edrych ar gyfleoedd ymarferol i gydweithio ar faterion penodol megis trefnu a rhannu hyfforddiant. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc hefyd yn cydweithio gyda Phartneriaeth Economaidd Gwynedd er mwyn sicrhau fod y strategaeth yn ymateb yn llawn i anghenion economaidd yr ardal.

13.3.2 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, felly, yn datblygu Strategaeth Gweithlu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd mewn cyfres o gamau, fel a ganlyn:

- Datblygu Cynllun Prosiect ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Plant a Phobl Ifanc.
- Cadarnhau blaenoriaethau'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac adnabod y materion gweithlu sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau hynny.
- Cofnodi ac ystyried effaith dylanwadau cenedlaethol a lleol ar y gweithlu plant a phobl ifanc yng Ngwynedd (gan gynnwys gofynion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth).
- Casglu a dadansoddi data a gwybodaeth am y gweithlu plant a phobl ifanc yng Ngwynedd.
- Ystyried ac asesu anghenion y gweithlu i'r dyfodol gan gynnwys: sgiliau craidd; fframweithiau cymwysterau proffesiynol; trefniadau sicrhau olyniaeth; arweinyddiaeth a rheolaeth; ansawdd, a materion rheoleiddio'r gweithlu.
- Ystyried lle mae'r bylchau yn y farchnad a dadansoddi'r rhesymau dros hynny, gan gynnwys: recriwtio a chadw; sgiliau / hyfforddiant; profiad; ansawdd, ac adnoddau.
- Cyhoeddi Strategaeth Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc drafft ac ymgynghori'n eang arno.
- Diwygio'r strategaeth yn dilyn y cyfnod ymgynghori, ei gyhoeddi'n derfynol a pharatoi cynlluniau gweithredu clir er mwyn cefnogi ei weithrediad yn effeithiol.

13.3.3 Nod y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yw cyhoeddi Strategaeth Datblygu'r Gweithlu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd o fewn chwe mis dyddiad cyhoeddi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc terfynol.

14. Gwneud Gwahaniaeth Er Lles Plant a Phobl Ifanc

14.1 Cyflwyniad

14.1.1 Pwrpas yr adran yma yw amlygu'r trefniadau hynny sydd angen bod mewn lle ar gyfer caniatáu'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i roi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar waith yn effeithiol er mwyn gwneud gwahaniaeth i les plant a phobl ifanc Gwynedd.

14.1.2 Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys:

- Trefniadau llywodraethu a gweithio mewn partneriaeth.
- Trefniadau cynllunio busnes.
- Trefniadau comisiynu a chontractio.
- Trefniadau mesur, monitro a rheoli perfformiad.
- Trefniadau sicrhau ansawdd.
- Trefniadau hunanasesu.
- Trefniadau rhannu gwybodaeth.
- Trefniadau ymchwil ac asesu anghenion yn barhaus.

14.2 Trefniadau Llywodraethu a Gweithio Mewn Partneriaeth

14.2.1 Ad-drefnwyd trefniadau partneriaethol ym maes plant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn Ionawr 2007 er mwyn ymateb yn llawn i ofynion newydd Y Ddeddf Plant (2004). Sefydlwyd Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd i fod yn gyfrifol am hyrwyddo lles holl blant a phobl ifanc y Sir a sefydlwyd hefyd cyfres o Grwpiau Cynllunio a Datblygu i weithredu ar faterion penodol ar ran y bartneriaeth gan gynnwys gwasanaethau cymorth ieuenctid; tlodi plant; rhiantu, gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, a chyfranogi a gwybodaeth.

14.2.2 Cyn cyhoeddi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn derfynol, bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn cynnal adolygiad o'r drefn bartneriaethol presennol er mwyn sicrhau fod trefniadau addas yn cael eu rhoi mewn lle i gefnogi gweithrediad effeithiol y cynllun hwn. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn rhoi ystyriaeth lawn i drefniadau llywodraethu presennol y bartneriaeth fel rhan o'r adolygiad yn ogystal ag asesu effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer cydweithio gyda phartneriaethau strategol eraill yng Ngwynedd a thu hwnt i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc y Sir.

14.3 Trefniadau Cynllunio Busnes

14.3.1 Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn derfynol, bydd y Bartneriaeth Strategol yn cyhoeddi Cynlluniau Busnes clir ar gyfer rhoi prif elfennau'r cynllun hwn ar waith yn effeithiol. Bydd y Cynlluniau Busnes yn nodi'n glir y tasgau, adnoddau a thargedau sydd angen bod mewn lle i gyflawni'r prif gynlluniau a nodir yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn ogystal â'r gwasanaethau, cyrff neu asiantaethau fydd yn gyfrifol am eu cyflawni ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc.

14.4 Trefniadau Comisiynu a Chontractio

14.4.1 Yn ogystal â chyhoeddi Cynlluniau Busnes, bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn datblygu a chyhoeddi Strategaeth Gomisiynu. Bydd y strategaeth yn nodi'n glir pa wasanaethau sydd angen eu comisiynu o'r newydd, pa wasanaethau sydd angen eu comisiynu yn wahanol a pha wasanaethau sydd angen eu dadgomisiynu ar sail angen yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Bydd y Strategaeth Gomisiynu hefyd yn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau cyhoeddus prin, gan gynnwys arian Cymorth.

14.5 Trefniadau Mesur, Monitro a Rheoli Perfformiad

14.5.1 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn sefydlu trefn gadarn ar gyfer mesur, monitro a rheoli ei pherfformiad o safbwynt cyflawni'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Yn sail i'r Fframwaith Rheoli Perfformiad fydd cyfres o ddangosyddion strategol a fydd yn canolbwyntio ar fesur deilliannau i blant a phobl ifanc. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn defnyddio Fframwaith Mesur Canlyniadau Llywodraeth y Cynulliad fel sail ar gyfer datblygu ei Fframwaith Rheoli Perfformiad. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn gosod targedau blynyddol ar gyfer pob dangosydd ac yn mesur a monitro cynnydd yn rheolaidd gan ddefnyddio 'Ffynnon', sef y system rheoli perfformiad cenedlaethol. Bydd y Fframwaith Rheoli Perfformiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Gomisiynu, y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a'r Drefn Hunanasesiad. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad perfformiad yn flynyddol yn unol â'r amserlen a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

14.6 Trefniadau Sicrhau Ansawdd

14.6.1 Fel rhan o'r Strategaeth Gomisiynu, bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd. Nod y fframwaith fydd sicrhau fod asiantaethau a chyrff sydd yn cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn ymgorffori ansawdd ym mhob agwedd o'u gwaith ac yn cynnig darpariaethau o safon i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd.

14.7 Trefniadau Hunanasesu

14.7.1 Fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd, bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn sefydlu trefn gadarn ar gyfer galluogi'r bartneriaeth ei hun a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar ei rhan i gwblhau hunanasesiad yn flynyddol. Drwy'r broses hunanasesu bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc a darparwyr gwasanaeth yn gallu gwerthuso a gwella eu perfformiad yn barhaus gan felly gyfrannu at y broses o ddatblygu, comisiynu a darparu gwasanaethau o safon i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd yr hunanasesiad hefyd o gymorth i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i adolygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn flynyddol a'i ddiwygio fel bo'r angen.

14.8 Trefniadau Rhannu Gwybodaeth

14.8.1 Er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau priodol, effeithiol, effeithlon ac o ansawdd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd bydd angen i'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc gytuno ar drefniadau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi 'Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' er mwyn galluogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau a sefydliadau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â lles unigolyn i rannu gwybodaeth rhyngddynt mewn ffordd gyfreithlon a deallus. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn arwyddo Haen 1 o'r Cytundeb ac yn rhoi trefniadau mewn lle ar gyfer gweithredu ar yr haenau eraill er mwyn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau.

14.9 Trefniadau Ymchwil ac Asesu Anghenion yn Barhaus

14.9.1 Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn adolygu ac yn diweddaru 'Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw' yn flynyddol er mwyn sicrhau fod gan y bartneriaeth wybodaeth gyfredol ynghylch lles ac anghenion plant a phobl ifanc. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc hefyd yn adnabod cyfres o faterion penodol i'w hymchwilio er mwyn cynyddu ei dealltwriaeth o'r materion hynny sy'n effeithio ar les plant a phobl ifanc Gwynedd. Bydd y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau y caiff y wybodaeth yma ei ddefnyddio i lywio trefniadau cynllunio strategol a phrosesau gwneud penderfyniadau'r bartneriaeth.

15. Eich Llais Chi

15.1 Cyflwyniad

15.1.1 Pwrpas yr adran yma yw esbonio'r drefn ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft.

15.2 Fersiynau Hygyrch o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc

15.2.1 Gellir darparu fersiynau hygyrch o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gais, mae hyn yn cynnwys:

- Fersiwn cryno ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Fersiwn print bras.
- Fersiwn ar dap.
- Fersiwn mewn braile.

15.2.2 Cysylltwch â'r Tîm Strategol - Plant a Phobl Ifanc i archebu fersiwn hygyrch.

15.3 Ymateb yn Ysgrifenedig

15.3.1 Gellir ymateb yn ysgrifenedig i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drwy gwblhau a dychwelyd yr holiadur pwrpasol sy'n cyd-fynd gyda'r cynllun drafft.

15.3.2 Gellir hefyd gyflwyno ymateb ysgrifenedig drwy'r post neu dros e-bost i'r cyfeiriadau canlynol:

Tîm Strategol - Plant a Phobl Ifanc
Uned Polisi a Pherfformiad
Cyfadran Datblygu
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Sir
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

cynllunppi@gwynedd.gov.uk

15.3.2 Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft yw **31 Gorffennaf 2008**.

15.4 Ymateb Dros y Ffôn

15.4.1 Gellir hefyd ymateb drwy gyflwyno sylwadau dros y ffon. Y rhifau i'w cysylltu â hwy yw: 01286 679 788 a 01286 679 878.

15.5 Mynychu Gweithdy

15.5.1 Bydd cyfres o weithdai yn cael eu trefnu a'u cynnal ym mis Gorffennaf er mwyn galluogi gwahanol bobl i ddod at ei gilydd i ystyried a thrafod y Cynllun Plant a Phobl Ifanc drafft. Bydd manylion am y gweithdai yn cael eu cyhoeddi ar y we.